# Ysgol Friars

## Dewis Opsiynau
## 2025-26



Yn Ysgol Friars, rydym yn falch o'n cwricwlwm eang, cytbwys a pherthnasol. Rydym eisiau’r gorau i'n disgyblion, a dyna pam ein bod wedi buddsoddi'n helaeth mewn datblygu a chreu cwricwlwm arloesol a difyr sy’n bodloni eu hanghenion a’u dyheadau.

Yn unol â Chwricwlwm i Gymru Llywodraeth Cymru, rydym wedi rhoi datblygiadau cyffrous a chyrsiau newydd ar waith. Ym Mlynyddoedd 10 ac 11, bydd pob disgybl yn cael y cyfle i astudio Iaith Saesneg a Llenyddiaeth Saesneg; Y Gymraeg; Mathemateg: Rhifedd a Mathemateg; Gwyddoniaeth; Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg; Bagloriaeth Cymru a thri chwrs dewisol. Rydym yn cynnig amrywiaeth fawr o gyrsiau academaidd a galwedigaethol sy’n addas i anghenion a dyheadau pob disgybl.

Mae'r llythyr atodol yn nodi'r camau allweddol a'r disgwyliadau i sicrhau bod pob disgybl a theulu yn teimlo eu bod yn cael digon o wybodaeth a chymorth yn ystod y broses opsiynau.

Yn y llyfryn yma, fe gewch wybodaeth am bob cwrs gan gynnwys cyrsiau sy'n cael eu cynnig gyda'n partneriaeth lwyddiannus gyda Coleg Menai Llandrillo. Rydym ni'n eich annog i ddod i noson rieni Blwyddyn 9, **Dydd Mawrth 24 Chwefror, 2026** i drafod cynnydd eich plentyn a’r opsiynau ar gyfer Blwyddyn 10 gydag athrawon pwnc eich plentyn.

Cod y Cwrs: **60182519**



# TGAU Celf, Crefft a Dylunio

**Beth fydda' i'n ei ddysgu?**

Bydd Celf, Crefft a Dylunio yn siŵr o'ch gwneud chi'n fwy creadigol. Byddwch chi'n dysgu cymryd perchnogaeth o'ch gwaith a bydd yn gwella eich sgiliau meddwl. Fe fyddwch chi'n datblygu eich syniadau drwy ymchwiliadau a ffynonellau eraill, gan ddangos dealltwriaeth ddadansoddol a diwylliannol. Fe ewch chi ati i ddatblygu eich syniadau trwy archwilio a dewis adnoddau, cyfryngau, defnyddiau, technegau a phrosesau priodol. A chofnodi eich syniadau, eich arsylwadau a'ch mewnwelediadau sy'n berthnasol i'ch bwriadau, mewn ffurfiau gweledol ac/neu eraill. Fe fyddwch chi'n cyflwyno ymateb personol, gwybodus ac ystyrlon ac yn dangos dealltwriaeth ddadansoddol a beirniadol.

**Beth fydd ei angen arna' i?**

Bydd angen i chi fod yn frwdfrydig ac yn barod i wella eich gallu i luniadu. Rhaid i chi ddeall sut i ddefnyddio llinell, tôn a gwead yn eich gwaith. Fe fyddwch chi'n dysgu defnyddio amrywiaeth o ddefnyddiau a thechnegau yn eich gwaith a deall y broses o greu darn gorffenedig.




**Sut fydda' i yn cael fy asesu?**

Mae'r cwrs wedi'i rannu yn ddwy ran:

Uned 1 - Dyfarnu 60% o farciau am y Gwaith Cwrs (120 marc)

Uned 2 - Dyfarnu 40% o farciau am y Prawf Ymarferol (80 marc)

**Beth fydd yn digwydd ar ôl y cwrs?**

Ar ôl cwblhau’r cwrs TGAU, rydym yn cynnig cwrs Safon U/UG mewn Celf Gain - cwrs llwyddiannus iawn sy’n gallu arwain at gyfleoedd cyffrous i fynd ymlaen i addysg bellach yn y celfyddydau, neu’n gallu ychwanegu gwerth ac ehangder astudiaeth i'r rheiny sy'n dilyn llwybr gwahanol.

**Syniadau am Swyddi**

Mae yna amrywiaeth fawr o yrfaoedd ar gael i'r rheiny sy'n astudio Celf. Dyma rai - dylunwyr graffeg, animeiddio, artistiaid serameg, darlunydd, dylunydd ffasiwn, artist colur, dylunydd mewnol, gwaith yn y cyfryngau, dylunydd y we a ffotograffydd.

**Miss C Larmour**
**Ail yn yr Adran Celfyddydau Mynegiannol**



Cod y Cwrs: C0011555





# TGAU Astudiaethau Busnes

**Beth fydda' i'n ei ddysgu?**

Yn y cwrs yma, bydd yr ymgeiswyr yn cael y cyfle i astudio'r unedau yma:

- Uned 1: Cyflwyniad i'r Byd Busnes - hanfodion busnes, gweithgareddau busnes, natur mentrau busnes, deall y gwahanol fathau o berchnogaeth busnes a nodau busnes, marchnadoedd, sectorau busnes, prynwyr/defnyddwyr.
- Uned 2: Ystyriaethau Busnes Allweddol - ymchwilio i fusnes o'ch dewis chi yn eich ardal leol.
- Uned 3: Strategaethau Busnes ar gyfer Llwyddiant – swyddogaethau busnes allweddol sef cyllid, marchnata, adnoddau dynol, cynhyrchu, strategaethau ar gyfer twf busnes.
- Uned 4: Creu Busnes - datblygu sgiliau menter drwy gynnal ymchwil cynradd ac ymchwil eilaidd i'r farchnad ar gyfer cynnig busnes.

**Sut fydda i'n dysgu?**

Gwaith grŵp
Gwaith ymchwil annibynnol ar gyfer yr asesiad di- arholiad
Mewnbwn athro
Trafodaethau dosbarth
Tasgau gwaith cartref
Cwestiynau mewn arddull hen bapurau
Defnyddio TGCh

Os ydych chi eisiau gwybod mwy, holwch fi am y cwrs!



**Ms Alaw Huws**
**Pennaeth Astudiaethau Busnes**

**Beth fydd ei angen arna' i?**

• Gwybodaeth am faterion cyfoes • Gallu dadansoddi a chloriannu data • Gallu defnyddio TGCh i safon dda • Gallu dadansoddi data a chyfrifo canrannau • Diddordeb mewn sut mae Busnesau yn gweithio • Sgiliau ymchwil da • Sgiliau cyflwyno. Mae pwyslais cryf ar rifedd a llythrennedd felly bydd angen i chi fod yn hyderus yn y meysydd hyn.

**Sut fydda' i yn cael fy asesu?**

Mae Uned 1 a 3 yn cael eu hasesu gydag arholiadau ysgrifenedig. Un ym Mlwyddyn 10 a'r llall ym Mlwyddyn 11. Asesiadau di-arholiad yw Uned 2 a 4 - fe fyddwch chi'n cael briff aseiniad i'w gwblhau. Fe fyddwch chi'n cynnal gwaith ymchwil, yn dadansoddi'r data ac yn rhoi barn.

Beth sy'n digwydd ar ôl y cwrs?

Mae Astudiaethau Busnes yn gwrs Safon U ym Mlwyddyn 12. Mae'n gwrs dros ddwy flynedd ac yn dilyn y cymhwyster TGAU yn agos.

**Syniadau am Swyddi**

• Marchnata, • Hysbysebu a Chysylltiadau Cyhoeddus, • Ymchwil i'r Farchnad, • Rheoli Brand a Chynnyrch • Cyfrifyddu a Chyllid , • Bancio Masnachol a Bancio Buddsoddi,
• Adwerthu a Rheoli Adwerthu, • Rheoli Adnoddau Dynol
• Rheoli gweithrediadau

Cod y Cwrs: C00/1166/7



# TGAU
# Dylunio a Thechnoleg

**Beth fydda i'n ei ddysgu?**

Mae Dylunio Cynnyrch yn gadael i chi weithio'n greadigol wrth ddylunio a gwneud a defnyddio arbenigedd technegol ac ymarferol. Byddwch yn dysgu am:

- Pwysigrwydd creadigrwydd ac arloesi o safbwynt arferion dylunio da.
- Sut i ddefnyddio gwahanol beiriannau a thŵls pŵer.
- Sut i weithio gydag amrywiol ddefnyddiau gwrthiannol (pren, metel a phlastig)
- Sut i ddefnyddio peiriannau CNC fel argraffydd 3D, torrwr laser a sticer CAM
- Deall egwyddorion dylunio a gwneud
- Defnyddio eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth i wneud penderfyniadau dylunio er mwyn gwneud prototeip o safon dda
- Dadansoddi cynnyrch parod a chynhyrchu datrysiadau ymarferol i fodloni anghenion, gofynion a chyfleoedd, gan gydnabod sut maent yn effeithio ar ansawdd bywyd
- Dadansoddi'n feirniadol y cysylltiadau rhwng egwyddorion dyluniad da, datrysiadau parod a gwybodaeth dechnolegol.

Fe fyddwch chi'n astudio gwaith dau Ddylunydd Cynnyrch enwog a rôl Airbus yn y Diwydiant Peirianneg.

**Sut fydda' i'n dysgu?**

Fe fyddwch chi'n datblygu eich sgiliau dylunio a gwneud drwy gwblhau amrywiol brosiectau dylunio a gwneud cyffrous. Bydd pob prosiect yn rhoi set wahanol o sgiliau i chi ac yn gwella eich dealltwriaeth o sut mae cynhyrchion pob dydd yn cael eu gweithgynhyrchu.

Fe fyddwch chi hefyd yn astudio gwaith gwahanol Ddylunwyr Cynnyrch llwyddiannus fel James Dyson a Bethan Gray.



Os ydych chi eisiau gwybod mwy, holwch fi am y cwrs!

**Mr S Holdsworth**
Pennaeth DaTh

**Beth fydd ei angen arna' i?**

Mae angen i chi fod yn frwdfrydig ac yn greadigol, yn dda am gyfathrebu a gallu datrys problemau er mwyn dylunio a gweithgynhyrchu cynhyrchion sy'n datrys angen defnyddiwr. Rhaid i chi allu braslunio a lluniadu, yna dod â'ch syniad yn fyw drwy fodelu ac yna'i wneud go iawn.


**Sut fydda' i'n cael fy asesu?**

Mae dwy uned a fydd yn cael eu hasesu'n ffurfiol. Fe gewch chi radd TGAU drwy gwblhau'r rhain:

1) Arholiad – Dylunio a Thechnoleg yn yr Unfed Ganrif ar Hugain (50%)
2) Gwaith Cwrs – Eich tasg dylunio a gwneud (50%)

**Beth sy'n digwydd ar ôl y cwrs?**

Ar ôl cwblhau'r cwrs TGAU Dylunio Cynnyrch (DaTh), rydym yn cynnig cwrs Safon U/UG cyffrous mewn Dylunio Cynnyrch (DaTh). Mae hwn yn gwrs llwyddiannus a chyffrous sy'n agor drysau i'r byd Peirianneg a Dylunio. Mae hyn wedyn yn gallu arwain at fwy o gyfleoedd yn y brifysgol neu mewn diwydiant.



**Syniadau am Swyddi**

Peiriannydd, Pensaer, Dylunydd Cynnyrch, Animeiddiwr, Arbenigwr mewn dylunio drwy gymorth cyfrifiadur (CAD), Dylunydd Graffeg, rhywun sy'n gwneud tŵls, Dylunydd/Peiriannydd Hedfan, Peiriannydd/Dylunydd Morol, Dylunydd Cynhyrchu, theatr/teledu, ffilm a llawer mwy o swyddi.

Cod y Cwrs: **C00/4040/5**





# TGAU Technoleg Ddigidol

I ddysgwyr sydd eisiau dechrau ar eu taith tuag at yrfa sy’n defnyddio technoleg ddigidol, neu symud ymlaen at raglenni dysgu ar lefel uwch sy’n golygu defnyddio technoleg ddigidol.

## Beth fydda’ i’n ei ddysgu?

Bydd manyleb TGAU CBAC mewn Technoleg Ddigidol yn galluogi dysgwyr i wneud y canlynol:

- dod yn annibynnol, yn hyderus ac yn wybodus wrth ddefnyddio technolegau digidol newydd, technolegau sy'n bodoli eisoes a thechnolegau datblygol
- meithrin gwybodaeth am wahanol systemau technoleg ddigidol a ddefnyddir mewn amrywiaeth o sectorau galwedigaethol
- deall effaith bosibl technolegau digidol ar unigolion a chymdeithas ehangach a'r ffyrdd y gallant arwain at newid
- meithrin sgiliau wrth drefnu a dadansoddi data er mwyn adnabod tueddiadau a chynulleidfaoedd
- dod yn wneuthurwyr cynhyrchion digidol, mewn amrywiaeth o fformatau ac at amrywiaeth o bwrpasau, sy'n bodloni anghenion penodol a dilys
- meithrin sgiliau trosglwyddadwy wrth ddefnyddio amrywiaeth o galedwedd a meddalwedd
- meithrin eu dealltwriaeth o gylchred oes datblygu systemau a'r ffordd y gall syniadau ddod yn gynhyrchion.



Os ydych chi eisiau gwybod mwy, holwch fi am y cwrs!,

**Mr M Ridgway**
Pennaeth TGCh

## Sut fydda’ i’n cael fy asesu?



**Mr. T Parry**

**Uned 1: Y Byd Digidol**
Arholiad ar-sgrin: 1 awr 30 munud (40%)

**Uned 2: Arferion Digidol**
Asesiad di-arholiad (NEA) 45 awr (40%)

**Uned 3: Cyfathrebu yn y Byd Digidol**
Arholiad ar-sgrin: 15 awr (20%)

## Beth sy’n digwydd ar ôl y cwrs?

Mae’r fanyleb yma yn rhoi sylfaen addas i astudio cwrs Safon Uwch neu UG mewn Technoleg Ddigidol.
Mae’r fanyleb yn rhoi cwrs astudio cydlynol, boddhaus a gwerth chweil i ddysgwyr sydd eisiau mynd ymlaen i astudio’r pwnc ymhellach. Hefyd, bydd y fanyleb yn helpu dysgwyr i wneud penderfyniadau gwybodus am amrywiaeth fawr o lwybrau gyrfa.

## Syniadau am Swyddi

Mae TGCh yn ganolog i bron bob swydd weinyddol, ac mae gwybodaeth am TGCh yn hanfodol er mwyn i weithwyr allu gweithio yn y mwyafrif helaeth o amgylcheddau gwaith.

Cod y Cwrs: C0007915



# TGAU Drama



**Trosolwg:** Mae TGAU Drama yn gwrs cyffrous ac ymarferol, llawn ysbrydoliaeth, sy'n hybu dysgwyr i gymryd rhan mewn drama a mwynhau drama, fel perfformwyr a dylunwyr. Hefyd, mae'n rhoi cyfleoedd i fynd i berfformiadau theatr byw a datblygu sgiliau fel aelodau o gynulleidfa wybodus a meddylgar. Mrs R. Rogers Walker, Arbenigwr Drama, sy'n cyflwyno'r cwrs.

**Cydran 1: Theatr wedi'i Dyfeisio** *(Asesu'n fewnol - 40% o'r Cymhwyster)*
Caiff dysgwyr eu hasesu **naill ai** ar actio **neu** ddylunio. Bydd dysgwyr yn cymryd rhan mewn creu, datblygu a pherfformio darn o theatr wedi'i dyfeisio gan ddefnyddio **naill ai** technegau ymarferwr theatr dylanwadol **neu** genre, mewn ymateb i ysgogiad fydd wedi'i osod gan y bwrdd.

**Cydran 2: Perfformio o Destun** *(Asesu'n Allanol - 20% o'r Cymhwyster)*
Bydd dysgwyr yn astudio dau ddarn o'r un ddrama ac yn cymryd rhan mewn perfformiad gan ddefnyddio adrannau o'r ddau ddarn. Caiff dysgwyr eu hasesu naill ai ar actio **neu** ddylunio.

**Mrs R Rogers Walker**
Pennaeth Drama




**Cydran 3: Dehongli Theatr** *(Arholiad ysgrifenedig, 90 munud, 40% o'r Cymhwyster)*
**Adran A:** Bydd dysgwyr yn ateb cyfres o gwestiynau ar eu testun gosod 'Two Faces' gan Manon Steffan Ros. Wrth baratoi, mae dysgwyr yn cael eu hannog i astudio'r testun yn ymarferol o safbwynt perfformiwr, dylunydd a chyfarwyddwr.
**Adran B:** Bydd dysgwyr yn ateb un cwestiwn, o ddewis o ddau, a fydd yn gofyn iddynt ddadansoddi a gwerthuso agwedd benodol ar gynhyrchiad theatr byw y maent wedi'i weld yn ystod y cwrs.

**Sgiliau'r Cwrs:** Yn ogystal â sgiliau actio a dylunio, rhaid i'r dysgwyr ddangos eu bod nhw'n gallu ymchwilio, gweithio'n dda mewn grŵp, rheoli eu hamser yn effeithiol, myfyrio ar eu gwaith eu hunain (a gwaith eraill) a'i werthuso, a dadansoddi cynyrchiadau byw.

**Chweched Dosbarth**: Rydym yn cynnig cwrs Safon U/UG Drama a Theatr gan ddefnyddio manyleb CBAC.

**Gyrfaoedd, Addysg Bellach ac Uwch:** Mae prifysgolion a chyflogwyr yn ffafrio myfyrwyr sy'n dangos amrywiaeth fawr o sgiliau – mae Drama yn gallu cyfrannu'n fawr tuag at greu 'unigolyn cyflawn' i'r rheiny sy'n barod i weithio'n galed.

Cod y Cwrs: **600/8645/2**





# Peirianneg L1/2 Galwedigaethol

**Beth fydda' i'n ei ddysgu?**

Mae Lefel 1/2 Dyfarniad Galwedigaethol mewn Peirianneg yn rhoi profiad dysgu i ddysgwyr rhwng 14 ac 16 oed gan ganolbwyntio ar ddysgu mewn ffordd gymhwysol, h.y. caffael a chymhwyso gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth drwy dasgau pwrpasol wedi'u gosod yng nghyd-destun y sector neu'r pwnc. Mae ganddynt felly lawer o nodweddion gwaith real. Unedau unigol sydd yn y cymhwyster, ond sydd yn caniatáu ar gyfer dysgu ac asesu synoptig. Drwy'r pwrpas cymhwysol y mae'r dysgu yn yr uned hon yn cael ei wneud yn berthnasol ac yn bwrpasol. Dyma sy'n rhoi'r brwdfrydedd a'r cymhelliant i ddysgwyr ac yn gwneud iddynt fynd ati i astudio peirianneg. Mae'r pwrpas cymhwysol yn rhoi'r cyfle ar gyfer dysgu go iawn sy'n gysylltiedig â gwaith. Yn fwy na hynny, bydd gofyn i ddysgwyr ystyried sut mae'r ffordd y maen nhw'n defnyddio a chymhwyso eu dysgu yn effeithio ar unigolion, y gymdeithas a'r amgylchedd.

**Beth fydda' i'n ei ddysgu?**

Bydd modiwlau sydd wedi'u cynllunio'n bwrpasol a fydd yn rhoi cyfleoedd i bob dysgwr ddatblygu ei wybodaeth a'i ddealltwriaeth o ddefnyddiau, dulliau a thechnegau prosesu. Bydd cyfleoedd i ddatblygu a gwella eich defnydd o TGCh a chynllunio drwy gymorth cyfrifiadur (CAD). Heb anghofio am ddefnyddio peiriannau rheoli rhifyddol (CNC) a pheiriannau peirianegol traddodiadol. Bydd digon o amser yn cael ei dreulio yn y gweithdai yn dylunio ac yn gweithgynhyrchu cynnyrch gan ddefnyddio amrywiaeth o wahanol ddefnyddiau.

**Beth fydd ei angen arna' i?**

- Diddordeb mewn Peirianneg
- Diddordeb mewn Dylunio Cynnyrch a Thechnoleg
- Gallu bod yn arloesol
- Gallu datrys problemau
- Gallu dylunio, ail-ddatblygu a modelu syniadau
- Gallu darllen a dehongli lluniadau technegol

Os ydych chi eisiau gwybod mwy, holwch fi am y cwrs!



· Mr **S Smith**

**Sut fydda' i'n cael fy asesu?**

3 uned waith:

A) Mae Uned 1 yn rhoi'r cyfle i ddysgwyr ddehongli mathau gwahanol o wybodaeth beirianegol er mwyn cynllunio sut i gynhyrchu cynnyrch peirianegol (40%).

B) Mae Uned 2 yn gadael dysgwyr i archwilio sut mae cynnyrch wedi'i beiriannu yn cael ei addasu a'i wella dros amser, ac mae'n rhoi'r cyfle i ddysgwyr gymhwyso eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth i addasu cydran, elfen neu ddarn sy'n bodoli eisoes o'r deilliant peirianegol a gynhyrchwyd ganddynt ar gyfer Uned 1.

C) Mae Uned 3 yn cyflwyno dysgwyr i amrywiaeth o ystyriaethau sy'n effeithio ar ddyluniad peirianegol a sut mae peirianneg fodern wedi effeithio ar fywyd modern yn y cartref, yn y gwaith ac yn y gymdeithas yn gyffredinol (40%).

Beth sy'n digwydd ar ôl y cwrs?

O gwblhau'r cymhwyster yma yn llwyddiannus, fe all roi cyfleoedd i'r dysgwr wneud gwahanol gymwysterau Lefel 3 gan gynnwys TAG, prentisiaethau a chymwysterau galwedigaethol.

Fel:

- TAG mewn Dylunio a Thechnoleg yma yn Ysgol Friars



**Mr M Thomas**

Cod y Cwrs: C00/4457/4





# L1/2 Dyfarniad Galwedigaethol Lletygarwch ac Arlwyo

Ydach chi erioed wedi meddwl beth sydd ei angen i weithio yn un o’r gwestai neu’r bwytai gorau? Ydi bwyd a darganfod blasau newydd yn eich ysbrydoli chi? Efallai bod gennych chi ddiddordeb mewn datblygu’r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer gwaith blaen tŷ? Os felly, mae’n amser i chi gael gwybod mwy am y cymhwyster cyffrous yma heddiw!

**Uned 1: Y Diwydiant Lletygarwch ac Arlwyo (40%)**


- Dysgu am y diwydiant lletygarwch ac arlwyo, y mathau o ddarparwyr lletygarwch ac arlwyo a dysgu am weithio yn y diwydiant.
- Dysgu am iechyd a diogelwch, a diogelwch bwyd mewn lletygarwch ac arlwyo, yn ogystal ag achosion afiechyd sy’n gysylltiedig â bwyd.

**Uned 2: Lletygarwch ac Arlwyo ar waith (60%)**

- Dysgu am bwysigrwydd maeth a sut mae dulliau coginio yn gallu effeithio ar werth maethol.
- Dysgu sut i gynllunio bwydlenni maethlon a ffactorau sy’n effeithio ar gynllunio bwydlen. Fe fyddwch chi’n dysgu’r sgiliau a’r technegau sydd eu hangen i baratoi, coginio a chyflwyno prydau ac yn dysgu sut i adolygu eich gwaith yn effeithiol.

**Profiad Dysgu Ymarferol**: Mae cwrs Lletygarwch ac Arlwyo CBAC yn rhoi pwyslais ar brofiad ymarferol mewn coginio, paratoi bwyd, rheoli cegin, gan roi’r sgiliau i chi lwyddo mewn amgylcheddau coginio go iawn.

**Mrs T Williams**
**Athrawes Bwyd a Maeth**



**Sgiliau sy’n Berthnasol i Ddiwydiant**: Mae’r cwrs yma yn canolbwyntio ar y Sgiliau hanfodol sydd eu hangen yn y diwydiant lletygarwch, fel cynllunio bwydlen, diogelwch bwyd, gwasanaeth i gwsmeriaid, a gweithrediadau mewn cegin, a fydd yn eich gwneud chi’n barod am swydd ar ôl cwblhau’r cwrs.

Llwybr at **Yrfaoedd Cyffrous:** Mae astudio Lletygarwch ac Arlwyo yn agor y drws i ddewisiadau gyrfa deinamig, o chef a rheolwr digwyddiadau i weinyddwr gwesty – bydd yn rhoi sylfaen gref ar gyfer swyddi ar draws y sector lletygarwch.

Gan ddatblygu sgiliau coginio, mae’r cwrs yn meithrin sgiliau bywyd hanfodol, gan gynnwys gweithio mewn tîm, cyfathrebu, datrys problemau, a rheoli amser, sy’n werthfawr mewn unrhyw yrfa.



· Paratoi **am Addysg Bellach**: Drwy gwblhau’r cwrs Lefel1/2 gan CBAC, gall hyn arwain at astudiaethau pellach, fel cymwysterau Lefel 3 mewn lletygarwch neu arlwyo, prentisiaethau neu ysgolion coginio arbenigol.

· Pwyslais ar **Wybodaeth am Iechyd a Diogelwch**: Mae’r cwrs yn pwysleisio pwysigrwydd iechyd, hylendid, a diogelwch mewn arlwyo, gan sicrhau eich bod chi wedi paratoi’n dda i weithio mewn lleoliadau proffesiynol sydd â safonau uchel yn y diwydiant.

· **Pwnc Creadigol a Boddhaus:** Mae Lletygarwch ac Arlwyo yn cyfuno creadigedd â sgiliau ymarferol, sy’n golygu ei fod yn ddewis da i’r rheiny sydd wrth eu boddau efo bwyd, coginio a chreu profiadau bwyta cofiadwy.





**Ms C Holmes**

Cod y Cwrs: [C0007925]



# TGAU Ffrangeg




**Beth fydda' i'n ei ddysgu?**
Bydd y cwrs yma yn eich helpu chi i:

- ddatblygu dealltwriaeth o'r iaith mewn amrywiaeth o gyd-destunau
- datblygu gwybodaeth o'r iaith a sgiliau dysgu iaith
- datblygu'r gallu i gyfathrebu'n effeithiol yn yr iaith
- datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r gwledydd a'r cymunedau lle mae'r iaith yn cael ei siarad.

**Beth fydda' i'n ei ddysgu?**
Bydd myfyrwyr yn atgyfnerthu ac yn ymestyn eu gwybodaeth a'u defnydd o'r iaith drwy ddatblygu pedair sgil, sef gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu o fewn tair thema eang:

iaith ar gyfer hamdden a llesiant
iaith ar gyfer teithio
iaith ar gyfer astudio a gweithio

Os ydych chi eisiau gwybod mwy, holwch fi am y cwrs!

**Mrs S Ellis-Williams**
**Pennaeth Ieithoedd Rhyngwladol (IRh)**




**Sut fydda' i'n cael fy asesu?**
Mae cyfuniad o asesiadau yn y TGAU Newydd. Mae dau Asesiad Di-arholiad (NEA) sy'n cael eu cynnal mewn ffenestr NEA benodol sy'n cael ei gosod gan CBAC yn ystod ail flwyddyn y cwrs (45%) a dwy arholiad hefyd (55%) ar ddiwedd Blwyddyn 11.
Siarad: Asesiad Di-arholiad - 30%
Darllen ac Ysgrifennu: Asesiad Di-arholiad - 15%
Arholiad gwrando: - 20%
Arholiad Darllen ac Ysgrifennu: 35%

**Beth sy'n digwydd ar ôl y cwrs?**
Mae gan fyfyrwyr sydd â gradd B (o leiaf) mewn TGAU y siawns i barhau i astudio cwrs Safon U ac UG mewn Ffrangeg yn Ysgol Friars.

**<u>Syniadau am Swyddi</u>**
Cofiwch: nid yw 75% o boblogaeth y byd yn siarad Saesneg, ac mae 60% o fusnesau Prydain yn masnachu efo gwledydd sydd ddim yn siarad Saesneg.

Criw Caban Awyren, Gweithiwr Banc, Ysgrifennydd Dwyieithog, Swyddog Cyllid a Thollau, Gyrfaoedd mewn Gwasanaeth Diplomataidd, Peiriannydd, Rep Gwyliau, Tywysydd Teithiau, Rheolwr Gwesty, Swyddog Mewnfudo, Mewnforiwr/Allforiwr, Prynwr Diwydiannol, Dehonglydd, Swyddog Recriwtio Myfyrwyr Tramor, Gwerthu a Marchnata, Gweithiwr Cymdeithasol, Athro/Athrawes, Dysgu Saesneg fel Iaith Dramor (TEFL), Swyddog Gwybodaeth i Ymwelwyr, Cyfieithydd, Gwaith mewn Meysydd Awyr a Phorthladdoedd.

Cod y Cwrs: 60176635




# TGAU Daearyddiaeth




Mae daearyddiaeth yn golygu astudio'r berthynas rhwng pobl a'u hamgylcheddau. Mae daearyddwyr yn edrych ar nodweddion ffisegol arwyneb y ddaear a'r cymdeithasau dynol ar draws y byd. Beth all fod yn bwysicach i'n dyfodol ni?

**BETH FYDDA' I'N EI ASTUDIO?**

TEITL/UNED 1 – Ein Byd Ffisegol a Dynol. **(Blwyddyn 10)**

Yma fe fyddwch chi'n astudio:

- Dalgylch afon ac afonydd.
- Morliniau sy'n newid
- Mudo
- Newid aneddiadau

TEITL/UNED 3 – Ein Byd Dynamig ac Amrywiol. (**Blwyddyn 11)**

- Daearyddiaeth anghydraddoldeb
- Uchafbwyntiau ac isafbwyntiau ein tywydd
- Tywydd garw
- Newid hinsawdd parhaus
- Rheoli heriau byd-eang.

**SUT FYDDA' I'N CAEL FY ASESU?**

ARHOLIAD 1 - Uned 1 Ein Byd Ffisegol a Dynol. **(Blwyddyn 10)**

Mae hwn werth 30% o'r cymhwyster ac yn arholiad ysgrifenedig 1 awr 30 munud.

ARHOLIAD 2 - Uned 3 Ein Byd Dynamig ac Amrywiol. **(Blwyddyn 11)**

Mae hwn werth 30% o'r cymhwyster ac yn arholiad ysgrifenedig 1 awr 30 munud.

Asesiadau Di-arholiad (NEA) – Mae dwy dasg asesu di-arholiad:

Uned 2 Datblygu Sgiliau Gwaith Maes 25% o'r cymhwyster. **(Blwyddyn 10)**

Fe fyddwch chi'n cynnal ymweliad gwaith maes yn seiliedig ar destun, fel newid dros amser neu amgylchedd, ac yn ymchwilio i hyn mewn lleoliad penodol, gan ysgrifennu ymholiad gwaith maes a gaiff ei gyflwyno i CBAC.

Uned 4 Datrysiadau Cynaliadwy, 15% o'r cymhwyster **(Blwyddyn 11)**

Fe gewch chi lyfryn adnoddau ar fater daearyddol ac fe fyddwch chi hefyd yn gwneud darllen cefndirol ar y mater. Yna fe fyddwch chi'n ysgrifennu adroddiad ar fater go-iawn mewn tasg ble mae angen gwneud penderfyniad, gan ddweud pa mor gynaliadwy y mae'r gwahanol ddatrysiadau yn debygol o fod.

Uned 4 Datrysiadau Cynaliadwy, 15% o'r cymhwyster

Fe gewch chi lyfryn adnoddau ar fater daearyddol ac fe fyddwch chi hefyd yn gwneud darllen cefndirol ar y mater. Yna fe fyddwch chi'n ysgrifennu adroddiad ar fater go-iawn mewn tasg ble mae angen gwneud penderfyniad, gan ddweud pa mor gynaliadwy y mae'r gwahanol ddatrysiadau yn debygol o fod.

**PA SGILIAU FYDDA' I'N EU DATBLYGU?**

- Mae Daearyddiaeth wastad yn y newyddion. Fe fyddwch chi'n datblygu sgiliau i **ddehongli, dadansoddi a gwerthuso** gwybodaeth i **wneud penderfyniadau** am faterion a phroblemau sy'n effeithio ar bobl a'r amgylchedd.
- Gallu **casglu, prosesu, dadansoddi** a deall data ansoddol a meintiol a'i gyfleu i amrywiaeth o gynulleidfaoedd.
- Datblygu dadl resymegol a'i chyfleu i wahanol gynulleidfaoedd.
- Sgiliau **Gweithio mewn Tîm ac Arwain**.
- Drwy astudio Daearyddiaeth, fe fyddwch chi'n datblygu amrywiaeth o sgiliau personol ar gyfer bywyd, gan gynnwys **rheoli amser,** delio gydag ansicrwydd**, hyblygrwydd**, **creadigrwydd**, **datrys problemau** a **hunanhyder.**

**GYRFAOEDD MEWN DAEARYDDIAETH**

Mae cyflogwyr yn chwilio am y sgiliau trosglwyddadwy sy'n cael eu datblygu wrth astudio daearyddiaeth. Mae cyfoeth o swyddi y mae daearyddwyr yn gallu eu gwneud, ar draws bron pob sector! Mae'r rhan fwyaf o swyddi yn cynnwys rhyw elfen o ddaearyddiaeth ynddyn nhw, boed yn ddoctor sy'n ymchwilio i ledaeniad afiechyd neu'n beiriannydd sy'n dylunio cynnyrch i ddelio gyda'r galw am lai o blastig.


Daearyddiaeth yw'r dyfodol!

**Ar ôl y cwrs: Gradd C neu uwch – Cyfle i astudio cwrs Safon Uwch mewn Daearyddiaeth**



**Ms Laura Roberts**
Pennaeth Daearyddiaeth

Cod y Cwrs: C00/3685/2






# TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant

**Beth fydda' i'n ei ddysgu?**

- Mae dysgwyr yn cael y cyfle i ddatblygu eu dealltwriaeth o'r dylanwadau ar dwf, datblygiad, ymddygiad a llesiant pobl.
- Dod i ddeall anghenion cymdeithasol, corfforol, emosiynol a diwylliannol pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth, a chydnabod bod galluoedd ac anghenion pob unigolyn yn unigryw.
- Dod i ddeall sut mae darparu gwasanaethau yng Nghymru yn cefnogi datblygiad a llesiant unigolion, er mwyn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus rŵan ac yn nes ymlaen mewn bywyd.
- Mynd ati i astudio iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant i ddatblygu i fod yn ddysgwyr effeithiol ac annibynnol, ac fel meddylwyr beirniadol a myfyriol sy'n meddwl mewn ffordd ymholgar.
- Datblygu ymwybyddiaeth o'r llwybrau gyrfa sydd ar gael mewn iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant.

**Sut fydda' i'n dysgu?**

Defnyddio cysylltiadau galwedigaethol, cynllunio a chynnal amrywiaeth o ymchwiliadau, gwerthuso tystiolaeth. Mae'r cymhwyster yma yn gyfle i ymgeiswyr astudio cwrs a datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o iechyd a gofal cymdeithasol mewn cyd-destun galwedigaethol:

- Datrys Problemau
- Gwneud Penderfyniadau
- Defnyddio amrywiaeth o adnoddau
- Dealltwriaeth Ddiwylliannol
- Ymwybyddiaeth o Iechyd a Diogelwch

Os ydych chi eisiau gwybod mwy, holwch fi am y cwrs!



**Mrs Kelly Hardy**
**Athrawes Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

**Beth fydd ei angen arna' i?**

Hyfedredd sylfaenol mewn llythrennedd, rhifedd, TGCh a chymhelliant i weithio'n annibynnol.

**Sut fydda' i'n cael fy asesu?**

**Uned 1 – Twf, datblygiad a llesiant pobl.**
1 papur arholiad ysgrifenedig - 1 awr a hanner wedi'i osod a'i farcio'n allanol. Pwysoliad - 40% o'r marc i gyd.

**Uned 2 – Hybu a chynnal iechyd a llesiant.** Cwblhau 2 dasg bortffolio wedi'u gosod gan CBAC, asesu'n fewnol. Pwysoliad - 60% o'r marc i gyd.

**Beth sy'n digwydd ar ôl y cwrs?**

Bydd y cwrs yma yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd i symud ymlaen i gwrs TAG Lefel Uwch; hyfforddiant e.e. Prentisiaethau Modern neu NVQ; neu'n syth i waith.

**Syniadau am Swyddi**

Cynorthwyydd Nyrsio Gofal Iechyd, Nyrs Feithrin, Ffisiotherapi, Therapi Galwedigaethol, Meddygaeth, Dehonglydd i Bobl Fyddar, Seicolegydd Addysg, Swyddog Hyrwyddo Addysg, Mentor Bywyd, Athro/Athrawes Ysgol Gynradd, Cynorthwyydd Gofal Preswyl, Gweithiwr Cymdeithasol, Therapydd Iaith, Gweithiwr Cefnogol, Gweithiwr Ieuenctid

Cod y Cwrs: C00/4967/9



HISTORY

# TGAU Hanes

**Beth fydda' i'n ei ddysgu?**

Byddwch yn astudio amrywiaeth o faterion allweddol o Hanes Cymru, Prydain a'r Byd, ac yn gwerthuso tystiolaeth o ystod eang o gyfnodau hanesyddol.
Dyma'r pynciau a drafodir:

**Ym Mlwyddyn 10 -**

Uned 1: Canoloesol – Owain Glyndŵr c.1354–1416 (30%)
Dysgwch am arweinydd gwrthryfelgar enwocaf Cymru, Owain Glyndŵr, a sut lwyddodd i uno'r rhan fwyaf o'r wlad yn erbyn gormes Lloegr. Archwiliwch achosion, digwyddiadau, ac etifeddiaeth ei wrthryfel, a sut siapiodd hunaniaeth Gymreig am ganrifoedd i ddod.

Uned 4: Cymdeithas Newidiol – Asesiad di-arholiad (20%)
Ymchwiliwch sut mae cymdeithas a diwylliant wedi newid dros amser trwy eich pwnc dewisol eich hun. Byddwch yn cynllunio a chwblhau ymchwiliad hanesyddol gan ddefnyddio tystiolaeth a dadansoddiad i ddod i gasgliadau.

**Ym Mlwyddyn 11 -**

Uned 2: Modern Cynnar - Concwest Sbaenaidd yr Asteciaid c.1492–c.1525 (20%)
Astudiwch sut y dymchwelodd y concwerwyr Sbaenaidd yr Ymerodraeth Astecaidd. Archwiliwch fforio, crefydd, pŵer, a gwladychiaeth gynnar, ac ystyriwch sut wnaeth y cyfarfyddiad hwn newid Ewrop a'r Americas.

Uned 3: Modern – Rwsia a'r Undeb Sofietaidd c.1861–c.1953 (30%)
Archwiliwch sut newidiodd Rwsia o fod yn ymerodraeth Tsaraidd yn archbŵer comiwnyddol. Dysgwch am chwyldro, unbennaeth, a sut wnaeth arweinwyr fel Lenin a Stalin drawsnewid cymdeithas a'r byd modern.

**Sut fydda' i'n dysgu?**

Byddwch yn dysgu trwy ystod o weithgareddau, gan gynnwys gwaith grŵp a gwaith pâr, ymchwil annibynnol, gwersi rhyngweithiol, ac asesiadau wedi'u hamseru.
Bydd asesiad gan gyfoedion a hunanasesiad yn eich helpu i ddatblygu sgiliau dadansoddol a myfyriol.

Dysgwch sut i ymchwilio a gwerthuso materion hanesyddol, datblygiadau, a ffynonellau. Datblygwch ddull beirniadol a dadansoddol o ddigwyddiadau hanesyddol allweddol a thystiolaeth hanesyddol. Deallwch sut a pham mae pobl wedi dehongli'r gorffennol yn wahanol.

**Beth fydda' i ei angen?**

Dull brwdfrydig o astudio Hanes, chwilfrydedd am y gorffennol, a sgiliau llythrennedd sylfaenol.

**Sut fydda' i'n cael fy asesu?**

| Uned | Pwnc | Dull Asesu | Pwysoliad |
|---|---|---|---|
| Uned 1 | Owain Glyndŵr c.1354-1416 | Arholiad ysgrifenedig | 30% |
| Uned 2 | Concwest Sbaenaidd yr Asteciaid c.1492-c.1525 | Asesiad ar-lein | 20% |
| Uned 3 | Rwsia a'r Undeb Sofietaidd c.1891-c.1953 | Arholiad ysgrifenedig | 30% |
| Uned 4 | Cymdeithas Newidiol | Asesiad di-arholiad (gwaith cwrs) | 20% |

**Beth sy'n digwydd ar ôl y cwrs yma?**

Ar ôl cyflawni o leiaf Gradd C (neu gyfwerth) mewn TGAU Hanes, fe alli di fynd ymlaen i Lefel UG neu Lefel A Hanes.

Mae astudio Hanes yn datblygu sgiliau mewn ymchwil, dadansoddi, cyfathrebu, a gwerthuso — sy'n cael ei werthfawrogi'n fawr gan gyflogwyr a phrifysgolion.

**Syniadau Swyddi**

Newyddiadurwr; Archeolegydd; Curadur amgueddfa; Ymchwilydd teledu; Cyfreithiwr; Athro, Gwleidydd, neu unrhyw beth mewn gwirionedd. Nid yw dewis Hanes yn eich cyfyngu i swydd benodol.

**Mr Rhodri Hughes**
**Pennaeth y Gyfadran Ddyniaethau**



Mae croeso i chi holi os ydych eisiau gwybod mwy am y cwrs!

Cod y Cwrs: C00/1157/9




# TGAU Cyfrifiadureg

**Beth fydda' i'n ei astudio?**

Mae'r fanyleb hon yn hyrwyddo astudiaeth integredig o gyfrifiadureg. Bydd yn galluogi dysgwyr i ddatblygu ystod eang o sgiliau mewn meysydd rhaglennu, datblygu systemau, saernïaeth gyfrifiadurol, data, cyfathrebu ac apiau. Bydd cynnwys pwnc ar gyfer TGAU Cyfrifiadureg yn cael ei asesu ar draws tair uned. Er bod ychydig o or-gyffwrdd rhwng y cynnwys yn Uned 1 ac Uned 2,mae cyd-destun y modd yr asesir y cynnwys yn wahanol.
Yn Uned 1, asesir y cynnwys mewn ffordd ddamcaniaethol tra bod Uned 2 yn cael ei asesu drwy ei ddefnydd mewn rhaglenni ac algorithmau. Dyluniwyd yr asesiad di-arholiad (NEA) i asesu gallu ymgeisydd i gymhwyso'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth a ddysgwyd yn Unedau 1 a 2.
Bydd ymgeiswyr yn derbyn senario yn disgrifio'r gofynion ar gyfer datrysiad yn seiliedig ar gyfrifiadureg. Bydd y gwaith ar gyfer Uned 3 yn cael ei wneud dan oruchwyliaeth athro, heb unrhyw fynediad i'r we nac e-bost.

**Pam dewis TGAU Cyfrifiadureg CBAC?**

Mae cyfrifiaduron yn cael eu defnyddio'n helaeth ym mhob agwedd ar fusnes, diwydiant, llywodraeth, addysg, hamdden a'r cartref. Yn yr oes dechnolegol hon, mae astudiaeth o gyfrifiadureg, ac yn enwedig sut mae cyfrifiaduron yn cael eu defnyddio i ddatrys amrywiaeth o broblemau, yn hanfodol i ddysgwyr. Mae cyfrifiadureg yn integreiddio'n dda â phynciau ar draws y cwricwlwm. Mae'n gofyn am ddisgyblaeth resymegol a chreadigrwydd dychmygus wrth ddewis a dylunio algorithmau ac ysgrifennu, profi a dadfygio rhaglenni; mae'n dibynnu ar ddealltwriaeth o reolau iaith ar lefel sylfaenol; mae'n annog ymwybyddiaeth o reoli a threfnu systemau cyfrifiadurol; mae'n ymestyn gorwelion dysgwyr y tu hwnt i amgylchedd yr ysgol neu'r coleg wrth werthfawrogi effeithiau cyfrifiadureg ar gymdeithas ac unigolion. Mae'r cwrs hwn mewn Cyfrifiadureg wedi'i gynllunio i roi dealltwriaeth o gysyniadau sylfaenol cyfrifiadureg a chwmpas eang o gyfleoedd astudio. Mae'r fanyleb hon wedi'i chynllunio i ryddhau canolfannau i ganolbwyntio ar ddarparu'r cwrs arloesol trwy gael strwythur symlach, anghymhleth, sy'n addas i'r dyfodol, gyda gofynion technolegol realistig.

**Gyrfaoedd gyda Chyfrifiadureg**

Defnyddir cyfrifiaduron yn helaeth ym mhob agwedd o fusnes, diwydiant, llywodraeth, addysg, hamdden a'r cartref. Yn yr oes gynyddol dechnolegol hon, mae astudiaeth o gyfrifiadureg, ac yn enwedig sut y defnyddir cyfrifiaduron i ddatrys amrywiaeth o broblemau, nid yn unig yn werthfawr i'r dysgwyr eu hunain ond hefyd yn hanfodol i lesiant y wlad yn y dyfodol.

Datblygwr apiau
Dadansoddwr seibr-ddiogelwch
Dadansoddwr fforenseg gyfrifiadurol
Dylunydd neu ddatblygwr gemau
Ymgynghorydd TG
Peiriannydd rhwydwaith
Rhaglennydd
Peiriannydd meddalwedd
Rheolwr cynnyrch meddalwedd
Dylunydd neu ddatblygwr gwe
Mae cyfleoedd posibl eraill yn cynnwys:
Dadansoddwr busnes
Darlithydd
Hyfforddwr TG
Ymchwilydd telathrebu

**Mr M Ridgway**
**Pennaeth TGCh**



**Mr T Parry**
**Athro TGCh**



How will I be assessed?

| | | |
|---|---|---|
| Unit 1: Understanding Computer Science | Written examination: 1 hour 45 minutes | 50% of the qualification 100 marks |
| Unit 2: Computational Thinking and Programming | On-screen examination: 2 hours | 30% of the qualification 60 marks |
| Unit 3: Software Development | Non-exam assessment: 20 hours | 20% of qualification 80 marks |

Cod y Cwrs: 60182908





# TGAU Cerddoriaeth

**BETH FYDDA' I'N EI ASTUDIO?**

Mae'r cymhwyster TGAU Cerddoriaeth yn seiliedig ar astudio a chymhwyso elfennau cerddoriaeth:

- dynameg
- ffurf a strwythur
- harmoni
- alaw a thraw
- technegau/ynganiad perfformiad
- soniarusrwydd / soniaredd • tempo, rhythm a mesur
- gwead • tonyddiaeth.

**SUT FYDDA' I'N CAEL FY ASESU?**

Uned 1 – Perfformio. Asesiad di-arholiad 32.5% o'r cymhwyster: 78 marc. Mae'n rhaid i chi berfformio ar offeryn(au) o'ch dewis am o leiaf 2 ddarn, 4-6 munud Unawd ac/neu ensemble. Chi fydd yn dewis darnau i'w perfformio a byddwch yn gweithio arnynt drwy gydol y cwrs ac yn recordio eich perfformiadau terfynol i'w hanfon i gael eu harholi.
Uned 2 – Cyfansoddi. Dull Asesu: Asesiad di-arholiad 32.5% o'r cymhwyster: 78 marc. Byddwch yn ysgrifennu 2 gyfansoddiad, cyfanswm o 3-6 munud. Byddwch yn cyfansoddi eich cerddoriaeth eich hun mewn arddull o'ch dewis, un i friff penodol ac un i'ch briff eich hun. Byddwch hefyd yn cyflwyno cofnod adlewyrchol asesedig.
Uned 3 – Gwerthuso. Dull Asesu: Arholiad digidol (1 awr 30 munud) 35% o'r cymhwyster: 84 marc. Bydd y cwestiynau arholiad yn seiliedig ar ddarnau o gerddoriaeth y byddwch yn gallu gwrando arnynt, a bydd disgwyl i chi wybod a deall elfennau o'r gerddoriaeth a sut maent yn cael eu defnyddio. Byddwch yn astudio 2 ddarn o waith mewn manylder.

**Mrs G Williams - Pennaeth Cyfadran y Celfyddydau Mynegiannol**

**GYRFAOEDD MEWN CERDDORIAETH**

Mae'r cymhwyster hwn yn darparu sylfaen addas ar gyfer astudio Lefel A Cerddoriaeth. Bydd hefyd yn darparu cwrs astudio boddhaol a gwerth chweil i chi petaech yn dewis peidio â bwrw ymlaen i astudio ymhellach. Yn y dyfodol, mae Creadigrwydd yn mynd i fod yn un o'r sgiliau pwysicaf yn y gwaith a bydd galw mawr amdanynt (Fforwm Economaidd y Byd). Pan gafodd arweinwyr busnes ar draws y byd eu holi, fe wnaethant bleidleisio Creadigrwydd fel y gallu pwysicaf yn y gweithle i helpu eu busnesau i oroesi a thyfu. Yn bwysig, bydd astudio cerddoriaeth yn datblygu llawer o sgiliau trosglwyddadwy, gan gynnwys sgiliau cyfathrebu, sgiliau cyflwyno, gwaith tîm, arweinyddiaeth, ffocws, cywreinrwydd, creadigrwydd a hunanhyder.



Holwch fi am y cwrs os ydych eisiau gwybod mwy!

Cod y Cwrs: [60068206]





# Tystysgrif Estynedig Lefel 2 Agored Cymru

**Tystysgrif Estynedig Lefel 2 Agored Cymru mewn Dysgu yn yr Awyr Agored**
**(Gweithgareddau Awyr Agored)**

### Beth fydda' i'n ei ddysgu?

- Gall y cwrs hwn eich helpu i ddysgu:
- Ynglŷn â'r mathau o swyddi y gallech weithio ynddynt a sut beth fyddai gweithio mewn addysg antur.
- Am ddeinameg tîm, asesu risg a gwneud penderfyniadau wrth weithio gydag eraill yn ddiogel mewn amgylchedd anturus.
- Rheoli eich effaith amgylcheddol yn yr awyr agored a deall yr amrywiaeth yng Ngogledd Cymru.
- Gwella eich perfformiad personol a rôl hyfforddi a chyfarwyddo i ysbrydoli eraill.

### Sut fydda' i'n dysgu?

Mae'r cwrs hwn yn gymysgedd o dasgau dosbarth ac ymarferol dan do ac yn yr awyr agored a byddwch yn cael cyfle i baratoi ac ymarfer eich sgiliau cyn i chi gael eich asesu fel eich bod yn gwybod ac yn deall beth fydd angen i chi ei wneud. Mae'r gweithgareddau y byddwch yn eu gwneud yn cynnwys dringo dan do ac yn yr awyr agored, bowldro, cychod pŵer, nosweithiau *Bivvy* a theithiau a all arwain at Wobr Efydd Dug Caeredin.

### Sut fydda' i'n cael fy asesu?

Byddwch yn gwneud gwaith cwrs fydd yn cael asesu'n bennaf gan eich athro, fydd yn golygu cadw llyfr cofnod o'r gweithgareddau a gwblheir.

Nid oes angen unrhyw brofiad blaenorol; fodd bynnag, bydd rhaid i chi gymryd cyfrifoldeb am eich ffitrwydd a threfn bersonol.

### Beth sy'n digwydd ar ôl y cwrs yma?

Mae'r cwrs hwn yn rhagflaenydd i'r cwrs BTEC Lefel 3 a ellir ei astudio yng Ngholeg Menai neu Goleg Llandrillo.

### Syniadau Swyddi

Hyfforddwr awyr agored llawrydd, Tywysydd Teithiau, Iechyd a Diogelwch, Diwydiant Amgylcheddol.



Holwch fi am y cwrs os ydych eisiau gwybod mwy!

**Mr H Healy**
**Athro Dyniaethau a Gweithgareddau Awyr Agored**

Cod y Cwrs: 60181485






# TGAU Addysg Gorfforol

**Beth fydda' i'n ei ddysgu?**
Bwriad y pwnc TGAU hwn yw annog ymarfer ac astudiaeth bwrpasol a difyr o Addysg Gorfforol. Byddwch yn dewis gweithgareddau ymarferol sy'n ystyried cyflawniad blaenorol, diddordeb personol a lefelau unigol o gymhelliant, tra'n eich annog i ddatblygu ymrwymiad i ffordd o fyw actif.

**Sut fydda' i'n dysgu?**
Bydd dwy ran o dair o'r gwersi yn ymarferol gyda phynciau theori (ysgrifenedig) yn cael eu gwneud mewn gwersi eraill. Pryd bynnag y bydd yn berthnasol, addysgir agweddau damcaniaethol yn defnyddio gweithgareddau ymarferol, e.e. dulliau a rhesymau dros brofi ffitrwydd.

**Beth fydda' i ei angen?**
Mae angen i chi fod yn frwdfrydig am y pwnc hwn ac yn gymwys mewn nifer o wahanol weithgareddau ymarferol. Bydd gennych fwy o amser i gymryd rhan ym mhob agwedd o Addysg Gorfforol na mewn unrhyw flynyddoedd blaenorol.



Ms **M Caulfield**
Pennaeth y Gyfadran Iechyd a Llesiant

**Sut fydda' i'n cael fy asesu?**
Bydd dwy uned yn ffurfio eich asesiad ar gyfer y pwnc yma.
**Uned 1: Arholiad ysgrifenedig 2 awr - 50%**
Bydd dysgwyr yn cael eu hasesu trwy ystod o gwestiynau byr ac estynedig yn seiliedig ar ysgogiadau clyweledol weledol a ffynonellau eraill.
**Uned 2: Cyfranogwr actif mewn addysg gorfforol - 50%**
Bydd dysgwyr yn cael eu hasesu mewn tri gweithgaredd gwahanol yn rôl perfformiwr mewn o leiaf un gamp unigol, un gamp tîm ac un arall. Bydd un gweithgaredd yn weithgaredd mawr a bydd rhaglen ffitrwydd bersonol yn gysylltiedig â'r gweithgaredd.

**Beth sy'n digwydd ar ôl y cwrs yma?**
Gall disgyblion barhau â'u hastudiaethau chwaraeon yn ein cwrs lefel 3 chwaraeon newydd. Llynedd, aeth 100% o ddisgyblion ymlaen i Brifysgol.

**Syniadau Swyddi**
Ffisiotherapydd, Chwaraewr chwaraeon proffesiynol, hyfforddwr, rheolwr, Seicolegydd Chwaraeon, gwasanaethau cyhoeddus, lluoedd arfog, Athro Addysg Gorfforol, hyfforddwr personol, dietegydd, gwyddonydd chwaraeon, dadansoddwr perfformiad, nyrs,

Cod y Cwrs: C200QS



# TGAU Cymdeithaseg

Nod y cwrs TGAU Cymdeithaseg yw datblygu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth feirniadol o'r byd cymdeithasol o'n cwmpas.

**Beth fydda' i'n ei ddysgu?**
Byddwch yn astudio amrywiaeth o bynciau a anogir i archwilio a thrafod materion cymdeithasol cyfoes, herio rhagdybiaethau a chwestiynu ffenomena cymdeithasol bob dydd.

Ym Mlwyddyn 10, byddwch yn ystyried sut mae bodau dynol yn cael eu hunaniaeth ac yn cael dealltwriaeth ddyfnach, fwy damcaniaethol o'r byd cymdeithasol. Mae'r pynciau yn cynnwys:

1. Trosglwyddo Diwylliannol, Cymdeithasoli a Hunaniaeth
2. Rôl y Teulu
3. Rôl Addysg
4. Dulliau Ymchwil

Holwch fi am y cwrs os ydych eisiau gwybod mwy!



**Miss T. Jones**
**Arweinydd Pwnc**
**Cymdeithaseg**

Ym Mlwyddyn 11, byddwch yn gwella eich ymwybyddiaeth o'r byd cymdeithasol drwy archwilio strwythurau cymdeithasol a'u dylanwad ar ymddygiad dynol. Mae'r pynciau'n cynnwys:

1. Gwahaniaethu Cymdeithasol, Pŵer a Dosbarthiad
2. Trosedd a Gwyriad
3. Dyluniad Ymchwil

**Sut fydda' i'n cael fy asesu?**

Nid oes gwaith cwrs ar gyfer TGAU Cymdeithaseg. Byddwch yn cael eich asesu mewn dau arholiad ysgrifenedig (sydd werth 50% yr un) ar ddiwedd Blwyddyn 11. Mae arholiadau yn gymysgedd o gwestiynau atebion byr, cwestiynau strwythuredig ac ymatebion estynedig.

**Beth sy'n digwydd ar ôl y cwrs hwn?**
Cynigir Lefel A Cymdeithaseg yma yn Ysgol Friars.

**Syniadau Swyddi**
Gweithiwr Cyngor; Elusen; Gwasanaeth Sifil; Datblygu Cymunedol; Cwnsela; Swyddog Tai; Adnoddau Dynol; Newyddiadurwr; Marchnata; Swyddog yr Heddlu; Ymchwilydd Cymdeithasol; Gwaith Cymdeithasol; Gweithiwr Cefnogol; Athro/Darlithydd; Gweithiwr Ieuenctid

Cod y Cwrs: [C0007970]



# TGAU Sbaeneg

## Beth fydda' i'n ei ddysgu?

Bydd y cwrs hwn yn eich helpu i:

- ddatblygu dealltwriaeth o'r iaith mewn amrywiaeth o gyd-destunau
- datblygu gwybodaeth am yr iaith a sgiliau dysgu iaith
- datblygu'r gallu i gyfathrebu'n effeithiol yn yr iaith
- datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o wledydd a chymunedau lle mae'r iaith yn cael ei siarad

## Sut fydda' i'n dysgu?

Bydd myfyrwyr yn cryfhau ac ymestyn eu gwybodaeth a'u defnydd o'r iaith drwy ddatblygu'r pedwar sgil o wrando, siarad, darllen ac ysgrifennu o fewn y tair thema gyffredinol isod:

iaith ar gyfer hamdden a llesiant
iaith ar gyfer teithio
iaith ar gyfer astudio a gwaith

Holwch fi am y cwrs os ydych eisiau gwybod mwy!



**Miss H Darroch**
**Athrawes Ieithoedd Rhyngwladol (IRh)**

## Sut fydda' i'n cael fy asesu?

Mae'r TGAU newydd yn cynnig cyfuniad o asesiadau. Mae yna ddau asesiad di-arholiad (NEA) a gaiff eu gwneud yn ystod cyfnod NEA penodol a bennir gan CBAC yn ystod ail flwyddyn y cwrs (45%) yn ogystal â dau arholiad (55%) ar ddiwedd Blwyddyn 11.

Siarad: NEA - 30%

Darllen ac Ysgrifennu: NEA - 15%

Gwrando: Arholiad ysgrifenedig - 20%

Darllen ac Ysgrifennu: 35%

## Beth sy'n digwydd ar ôl y cwrs yma?

Mae cyfle gan fyfyrwyr gyda gradd B TGAU o leiaf i barhau i astudio Sbaeneg yn Lefel UG a Lefel A drwy E-sgol.

Gaelle Lee - Athrawes Ieithoedd Rhyngwladol (IRh)

**Syniadau Swyddi**

**Cofiwch: Nid yw 75% o boblogaeth y byd yn siarad Saesneg ac mae 60 % o fusnesau Prydeinig yn masnachu gyda gwledydd nad ydynt yn siarad Saesneg**

Criw caban awyrennau, Banciwr, Ysgrifennydd Dwyieithog, Swyddog Tollau a Threthi, Gyrfaoedd yn y Gwasanaeth Llysgenhadol, Peiriannydd, Cynrychiolydd Gwyliau, Tywysydd Teithiau, Rheolwr Gwesty, Swyddog Mewnfudo, Mewnforiwr/Allforiwr, Prynwr Diwydiannol, Dehonglydd, Swyddog Recriwtio Myfyrwyr Tramor, Gwerthu a Marchnata, Gweithiwr Cymdeithasol, Athro, Dysgu Saesneg fel Iaith Dramor, Swyddog Gwybodaeth i Dwristiaid, Cyfieithydd, Gweithio mewn Meysydd Awyr a Phorthladdoedd, Gweithio i gwmnïau aml-wladol...

Cod y Cwrs:





# Astudiaethau Crefyddol

**Beth fydda’ i'n ei ddysgu?**

Os ydych chi'n mwynhau archwilio cwestiynau mawr am fywyd, moesoldeb, a'r hyn sy'n ein gwneud ni'n ddynol, yna mae'r cwrs hwn ar dy gyfer di! Mae TGAU Astudiaethau Crefyddol yn ymdrwytho mewn rhai o'r pynciau mwyaf diddorol ac ysgogol, gan gynnwys:

- Byd-olwg crefyddol ac anghrefyddol – Darganfyddwch sut mae gwahanol gredoau yn siapio bywydau a chymdeithasau.
- Pynciau llosg mewn moeseg a moesoldeb – Dadlau materion fel hawliau dynol, cyfiawnder a’r amgylchedd a dysgu sut mae pobl â gwahanol gredoau yn mynd i'r afael â'r heriau hyn.
- Athroniaeth a chwestiynau mwyaf bywyd – A yw Duw yn bodoli? Beth sy'n digwydd ar ôl i ni farw? Beth sy'n gwneud rhywbeth yn iawn neu'n anghyfiawn? Cymryd rhan mewn trafodaethau cyffrous a datblygu eich persbectifau eich hun.
- Hunaniaeth a diwylliant – Archwilio sut mae ffydd a chred yn dylanwadu ar ein hunaniaethau, ein cymunedau a’r byd o’n cwmpas.
- Effaith yn y byd go iawn - Gweld sut mae systemau crefydd a chred yn siapio cyfreithiau, gwleidyddiaeth a digwyddiadau byd-eang.

Nid yw hyn yn ymwneud â dysgu ffeithiau yn unig - mae'n ymwneud â meddwl drosoch eich hun, cymryd rhan mewn trafodaethau a chael dealltwriaeth ddyfnach o'r byd.

**Sut fydda i'n dysgu?**

Mae'r cwrs wedi’i ddylunio i fod yn ddiddorol ac yn rhyngweithiol, yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau dysgu i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion. Mae’r rhain yn cynnwys:

- Trafodaeth a Dadl: Bydd disgyblion yn archwilio a mynegi eu barn ar faterion moesegol ac athronyddol bwysig.
- Astudiaethau Achos: Bydd enghreifftiau bywyd go iawn yn helpu disgyblion i weld sut mae credoau yn dylanwadu ar weithredoedd a phenderfyniadau.
- Gwaith Grŵp a Chydweithio: Annog gwaith tîm a safbwyntiau amrywiol.
- Ymchwil Annibynnol: Bydd disgyblion yn ymchwilio i bynciau o ddiddordeb, gan ddatblygu sgiliau meddwl a dadansoddi beirniadol.
- Defnyddio Amlgyfrwng: Bydd rhaglenni dogfen, podlediadau ac adnoddau ar-lein yn cefnogi’r dysgu ac yn gwneud pynciau cymhleth yn hygyrch.



**Ms B Williams**
**Astudiaethau Crefyddol**

**Beth fydda’ i ei angen?**

Bydd angen i chi fod yn berson efo meddwl agored sy'n gwybod am faterion cyfoes yn ogystal â mwynhau cymryd rhan mewn trafodaethau dosbarth. Bydd etheg waith gref yn eich helpu i fod yn llwyddiannus yn eich asesiadau a'r gallu i ystyried barn arall i lywio eich barn eich hun.

**Sut fydda’ i'n cael fy asesu?**

Uned 1: Credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol ac anghrefyddol
Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 15 munud
30% o'r cymhwyster
Uned 2: Crefydd a pherthnasau

Asesiad di-arholiad: 6 awr
20% o’r cymhwyster

Uned 3: Rolau, hawliau a chyfrifoldebau
Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 15 munud
30% o’r cymhwyster

Uned 4: Crefydd a hawliau dynol

Asesiad di-arholiad: 6 awr
20% o’r cymhwyster

**Beth sy'n digwydd ar ôl y cwrs yma?**

Bydd llawer o fyfyrwyr sy'n mwynhau Astudiaethau Crefyddol yn mynd ymlaen i astudio Crefydd, Athroniaeth a Moeseg yn Lefel A. Mae'n gyfle cyffrous i ddysgu am gredoau Bwdhaidd, sy'n grefydd hollol newydd o'r hyn maent wedi'i astudio yn TGAU, yn ogystal â chymryd rhan mewn dadleuon athronyddol ynglŷn â Duw, y greadigaeth a llawer o ddilemâu moesegol.

**Syniadau Swyddi**

Cyfreithiwr, Newyddiadurwr, Meddyg, Nyrs, Athro, Gweithiwr Cymdeithasol, Gwleidydd, Seicolegydd, Adnoddau Dynol, Moeseg busnes, Plismona, Cwnsela.

Cod y Cwrs: 3320



# Mathemateg a Rhifedd (Gwobr Ddwbl)

Mewn TGAU Mathemateg a Rhifedd, byddwch yn adeiladu ar y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd gennych o bynciau o fewn rhif, algebra, geometreg, a data. Byddwch yn dysgu agweddau ariannol allweddol bywydau bob dydd oedolion, megis ymdrin â slipiau cyflog, biliau a chynilion. Mae dealltwriaeth dda o gynnwys y cymhwyster hwn yn llwyfan berffaith i'r rhai sy'n dymuno dilyn gyrfa STEM.

## BETH FYDDA' I'N EI ASTUDIO?

**Mae gan y cwrs 3 uned:**

UNED 1: Mathemateg Ariannol a Chymwysiadau Rhifedd Eraill

Yn yr uned hon byddwch yn dysgu gwersi bywyd fydd yn eich helpu i ddod yn oedolyn sy'n ariannol wybodus. Meddyliwch am dermau neu acronymau y gallech fod wedi clywed amdanynt fel 'Yswiriant Gwladol', 'TAW' neu 'AER' – bydd y rhain yn dod yn gyfarwydd i chi. Ymdrinnir â chyfleoedd ariannol a thrafferthion a byddwch yn dysgu sut i ddarllen dogfennau pwysig fel slipiau cyflog, biliau a datganiadau banc. Bydd pob math o gyd-destunau 'byd go iawn' eraill hefyd yn cael eu haddysgu a'u hasesu, gan wneud yr uned hon yn berthnasol ac yn ddiddorol.

UNED 2: Heb gyfrifiannell

Byddwch yn archwilio cysyniadau lle na fydd angen eich cyfrifiannell arnoch yn yr uned hon. Byddwch yn dyfnhau eich dealltwriaeth o debygolrwydd ac yn archwilio syniadau newydd o fewn algebra a geometreg, fel graffiau cwadratig a theoremau cylch.

UNED 3: Efo cyfrifiannell

Yr uned hon sydd â'r pwysoliad mwyaf o'r tair uned ac mae modd defnyddio cyfrifiannell y tro hwn. Mae llawer o drin data ac ystadegau yn yr uned hon yn ogystal â chysyniadau geometreg newydd fel Theorem a Thrigonometreg Pythagoras.

## SUT FYDDA' I'N CAEL FY ASESU?

| UNIT 1: Financial Mathematics and Other Applications of Numeracy | |
|---|---|
| Higher tier | Foundation tier |
| 1 hour 45 minutes<br>80 marks | 1 hour 30 minutes<br>65 marks |
| Weighting: 30% of the qualification | |

| UNIT 2: Non-calculator | |
|---|---|
| Higher tier | Foundation tier |
| 1 hour 45 minutes<br>80 marks | 1 hour 30 minutes<br>65 marks |
| Weighting: 30% of the qualification | |

| UNIT 3: Calculator-allowed | |
|---|---|
| Higher tier | Foundation tier |
| 2 hours<br>90 marks | 1 hour 45 minutes<br>75 marks |
| Weighting: 40% of the qualification | |

## PA SGILIAU FYDDA' I'N EU DATBLYGU?

- Byddwch yn datblygu dealltwriaeth o'r gwahanol feysydd mathemateg a sut maent yn ymwneud â'i gilydd.
- Byddwch yn ymestyn eich ystod o sgiliau a thechnegau mathemategol ac yn gallu eu defnyddio a'u cymhwyso i ystod o gyd-destunau bywyd go iawn.
- Byddwch yn ennill sylfaen gadarn mewn mathemateg ariannol i'ch paratoi ar gyfer bywyd a gwaith.

## GYRFAOEDD MEWN MATHEMATEG

Gall TGAU mewn Mathemateg a Rhifedd arwain at amrywiaeth o lwybrau gyrfa. Mae'r rhain yn cynnwys swyddi fel: dadansoddwr ariannol, rhaglennydd cyfrifiadurol, gwyddonydd meddygol, actiwari, datblygwr meddalwedd, economegydd, dadansoddwr data neu ymchwil, cyfrifydd, athro.

**Yn ogystal â'r cwrs TGAU, bydd ein dysgwyr sy'n cyflawni orau yn cael cyfle i gwblhau modiwlau Mathemateg Ychwanegol. Mae'r cwrs hwn yn rhedeg ochr yn ochr â'r TGAU Mathemateg a Rhifedd.**

Cod y Cwrs:

# TGAU Cymraeg Craidd



Ydych chi eisiau gallu deall a defnyddio'r Gymraeg, iaith Cymru, yn hyderus a digymell? Ydych chi eisiau datblygu sgil gwerthfawr ar gyfer defnyddio'r Gymraeg mewn astudiaethau pellach, yn y gweithle ac yn eich cymunedau? Ydych chi eisiau bod yn rhan o nod y llywodraeth a bod yn un o'r miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050? Dyma gymhwyster fydd yn gallu meithrin eich chwilfrydedd, datblygu eich sgiliau a strategaethau dysgu iaith ac agor drysau i astudiaethau pellach a swyddi yn y dyfodol.

**BETH FYDDA' I'N EI ASTUDIO?**

Byddwch yn astudio tair thema eang sef cynefin, hunaniaeth a diwylliant ac o fewn y themâu hyn byddwch yn dysgu:

- am werth y Gymraeg yn gymdeithasol ac yn y byd gwaith, am ei
- defnydd yng Nghymru ac ar draws y byd
- sut i ddeall a defnyddio'r Gymraeg gydag eraill yn ddigymell a hyderus
- sut i ddatblygu sgiliau ar gyfer bywyd a gwaith
- sut i ymateb yn greadigol i lenyddiaeth.

UNED 1 (Ymateb i Sbardun Gweledol) UNED 2 (Ymateb i Ffynonellau Amrywiol)

Yn yr unedau siarad a gwrando yma byddwch yn dysgu sut i ddeall a defnyddio'r Gymraeg gydag eraill mewn ffordd ddigymell a hyderus drwy:

- wylio sbardunau gweledol (Uned 1)
- edrych ar ffynonellau amrywiol er enghraifft, graff / siart, ffeithiau ac / neu ystadegau a delweddau (Uned 2)

UNED 3 (Paratoi at y Dyfodol) UNED 4 (Llenyddiaeth a Chreadigol)

Yn yr unedau yma byddwch yn datblygu'r ddwy sgil, darllen ac ysgrifennu, drwy ymateb i destunau darllen ac ysgrifennu di-eiriau, ymarfer ac ymateb i amrywiaeth o ffurfiau iaith, ynghyd a:

- dysgu sgiliau hanfodol ar gyfer y dyfodol fel trawsieithu a chyfieithu (Uned 3)
- astudio straeon byrion a cherddi gosod (Uned 4) Bydd pob uned yn seiliedig ar y tair thema eang.

**SUT FYDDA' I'N CAEL FY ASESU?**

ARHOLIAD - Bydd dau arholiad ysgrifenedig:
Uned 3 - 1 awr 30 munud; 100 marc; 25% o'r cymhwyster.
Uned 4 - 1 awr 30 munud; 100 marc; 25% o'r cymhwyster.
Bydd amrywiaeth o dasgau darllen gydag ymatebion di-eiriau ac ysgrifenedig yn y ddwy uned ynghyd â thasgau ysgrifennu disgrifiadol, perswadiol, beirniadol a mynegi barn (Uned 3) a thasgau ysgrifennu creadigol (Uned 4).

Yn Uned 3, bydd tasgau trawsieithu a chyfieithu yn cael eu hasesu ymhob cyfres. Yn Uned 4, bydd un testun gosod (o'r ddwy gerdd a'r ddwy stori fer) yn cael ei asesu ymhob cyfres. Byddwch chi'n cael gwybod cyn yr arholiad (Uned 4) pa destun gosod fydd yn cael ei ddefnyddio ymhob cyfres.

**ASESIAD DI-ARHOLIAD**

Bydd dau asesiad di-arholiad:
Uned 1 - un asesiad llafar pâr (6-8 munud) / grŵp o dri (8-10 munud); 50 marc; 25% o'r cymhwyster.
Uned 2 - un asesiad llafar pâr (6-8 munud) / grŵp o dri (8-10 munud); 50 marc; 25% o'r cymhwyster.

**PA SGILIAU FYDDA' I'N EU DATBLYGU?**

- Sgiliau Siarad a Gwrando

Byddwch yn datblygu eich sgiliau siarad a gwrando er mwyn gallu cyfathrebu, rhyngweithio, mynegi a chyfiawnhau barn a gofyn ac ymateb yn effeithiol i gwestiynau.

- Sgiliau Darllen ac Ysgrifennu

Byddwch yn datblygu eich sgiliau darllen ac ysgrifennu er mwyn gallu deall ac ymateb i fathau gwahanol o iaith ysgrifenedig ar wahanol ffurfiau gan gynnwys iaith y byd gwaith ac ymateb i lenyddiaeth.

- Sgiliau Dadansoddi

Byddwch yn datblygu eich sgiliau dadansoddi i ymateb yn feirniadol, gwerthuso pwyntiau perthnasol a datblygu syniadau mewn testunau a chyfathrebu llafar.

**GYRFAOEDD YM MAES CYMRAEG CRAIDD**

TGAU CYMRAEG CRAIDD

Mae swyddi sy'n cael eu hysbysebu yng Nghymru yn aml yn gofyn am y gallu i siarad Cymraeg fel rhywbeth hanfodol neu ddymunol. Os oes gennych chi gymhwyster TGAU Cymraeg Craidd a bod gan yr ymgeiswyr eraill sy'n ceisio am y swydd ddim y cymhwyster hwn, yna rydych chi ar y blaen i'r lleill cyn dechrau.
Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn bwysig ac o fantais ymhob maes gan gynnwys addysg, iechyd a gofal, y llywodraeth, y cyfryngau ac adloniant, chwaraeon, y gyfraith, marchnata a llawer mwy. Gallwch hyd yn oed gael swydd ym Mhatagonia yn ne America os ydych chi'n gallu siarad Cymraeg!

Cod y Cwrs:




# TGAU Cymraeg Craidd

Ydych chi eisiau gallu deall a defnyddio'r Gymraeg, iaith Cymru, yn hyderus a digymell? Ydych chi eisiau datblygu sgil gwerthfawr ar gyfer defnyddio'r Gymraeg mewn astudiaethau pellach, yn y gweithle ac yn eich cymunedau? Ydych chi eisiau bod yn rhan o nod y llywodraeth a bod yn un o'r miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050? Dyma gymhwyster fydd yn gallu meithrin eich chwilfrydedd, datblygu eich sgiliau a strategaethau dysgu iaith ac agor drysau i astudiaethau pellach a swyddi yn y dyfodol.

**BETH FYDDA' I'N EI ASTUDIO?**

Byddwch yn astudio tair thema eang sef cynefin, hunaniaeth a diwylliant ac o fewn y themâu hyn byddwch yn dysgu:

- am werth y Gymraeg yn gymdeithasol ac yn y byd gwaith, am ei
- defnydd yng Nghymru ac ar draws y byd
- sut i ddeall a defnyddio'r Gymraeg gydag eraill yn ddigymell a hyderus
- sut i ddatblygu sgiliau ar gyfer bywyd a gwaith
- sut i ymateb yn greadigol i lenyddiaeth.

UNED 1 (Ymateb i Sbardun Gweledol) UNED 2 (Ymateb i Ffynonellau Amrywiol)

Yn yr unedau siarad a gwrando yma byddwch yn dysgu sut i ddeall a defnyddio'r Gymraeg gydag eraill mewn ffordd ddigymell a hyderus drwy:

- wylio sbardunau gweledol (Uned 1)
- edrych ar ffynonellau amrywiol er enghraifft, graff / siart, ffeithiau ac / neu ystadegau a delweddau (Uned 2)

UNED 3 (Paratoi at y Dyfodol) UNED 4 (Llenyddiaeth a Chreadigol)

Yn yr unedau yma byddwch yn datblygu'r ddwy sgil, darllen ac ysgrifennu, drwy ymateb i destunau darllen ac ysgrifennu di-eiriau, ymarfer ac ymateb i amrywiaeth o ffurfiau iaith, ynghyd a:

- dysgu sgiliau hanfodol ar gyfer y dyfodol fel trawsieithu a chyfieithu (Uned 3)
- astudio straeon byrion a cherddi gosod (Uned 4) Bydd pob uned yn seiliedig ar y tair thema eang.

**SUT FYDDA' I'N CAEL FY ASESU?**

ARHOLIAD - Bydd dau arholiad ysgrifenedig:
Uned 3 - 1 awr 30 munud; 100 marc; 25% o'r cymhwyster.
Uned 4 - 1 awr 30 munud; 100 marc; 25% o'r cymhwyster.
Bydd amrywiaeth o dasgau darllen gydag ymatebion di-eiriau ac ysgrifenedig yn y ddwy uned ynghyd â thasgau ysgrifennu disgrifiadol, perswadiol, beirniadol a mynegi barn (Uned 3) a thasgau ysgrifennu creadigol (Uned 4).

Yn Uned 3, bydd tasgau trawsieithu a chyfieithu yn cael eu hasesu ymhob cyfres. Yn Uned 4, bydd un testun gosod (o'r ddwy gerdd a'r ddwy stori fer) yn cael ei asesu ymhob cyfres. Byddwch chi'n cael gwybod cyn yr arholiad (Uned 4) pa destun gosod fydd yn cael ei ddefnyddio ymhob cyfres.

**ASESIAD DI-ARHOLIAD**

Bydd dau asesiad di-arholiad:
Uned 1 - un asesiad llafar pâr (6-8 munud) / grŵp o dri (8-10 munud); 50 marc; 25% o'r cymhwyster.
Uned 2 - un asesiad llafar pâr (6-8 munud) / grŵp o dri (8-10 munud); 50 marc; 25% o'r cymhwyster.

**PA SGILIAU FYDDA' I'N EU DATBLYGU?**

- Sgiliau Siarad a Gwrando

Byddwch yn datblygu eich sgiliau siarad a gwrando er mwyn gallu cyfathrebu, rhyngweithio, mynegi a chyfiawnhau barn a gofyn ac ymateb yn effeithiol i gwestiynau.

- Sgiliau Darllen ac Ysgrifennu

Byddwch yn datblygu eich sgiliau darllen ac ysgrifennu er mwyn gallu deall ac ymateb i fathau gwahanol o iaith ysgrifenedig ar wahanol ffurfiau gan gynnwys iaith y byd gwaith ac ymateb i lenyddiaeth.

- Sgiliau Dadansoddi

Byddwch yn datblygu eich sgiliau dadansoddi i
ymateb yn feirniadol, gwerthuso pwyntiau perthnasol a datblygu syniadau mewn testunau a chyfathrebu llafar.

**GYRFAOEDD YM MAES CYMRAEG CRAIDD**

TGAU CYMRAEG CRAIDD

Mae swyddi sy'n cael eu hysbysebu yng Nghymru yn aml yn gofyn am y gallu i siarad Cymraeg fel rhywbeth hanfodol neu ddymunol. Os oes gennych chi gymhwyster TGAU Cymraeg Craidd a bod gan yr ymgeiswyr eraill sy'n ceisio am y swydd ddim y cymhwyster hwn, yna rydych chi ar y blaen i'r lleill cyn dechrau.
Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn bwysig ac o fantais ymhob maes gan gynnwys addysg, iechyd a gofal, y llywodraeth, y cyfryngau ac adloniant, chwaraeon, y gyfraith, marchnata a llawer mwy. Gallwch hyd yn oed gael swydd ym Mhatagonia yn ne America os ydych chi'n gallu siarad Cymraeg!

Cod y Cwrs:



# TGAU Cymraeg Iaith a Llenyddiaeth (Gwobr Ddwbl)

**CYFLWYNIAD**

"Yr iaith Gymraeg yw un o drysorau Cymru. Mae'n rhan o'r hyn sy'n ein diffinio ni fel pobl ac fel cenedl." (Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg, 2017, t.2). Nod Llywodraeth Cymru yw cyrraedd y targed o 'filiwn o siaradwyr Cymraeg' erbyn 2050 ac rydych chi'n un o'r miliwn! Mae hwn yn gymhwyster newydd a chyffrous lle byddwch yn astudio cyfoeth o lenyddiaeth a fydd yn tanio'ch dychymyg, yn meithrin eich brwdfrydedd ac yn eich paratoi igyfathrebu a byw trwy gyfrwng y Gymraeg.

**BETH FYDDA' I'N EI ASTUDIO?**

UNED 1 (Naratif) - yn yr uned hon byddwch yn astudio nofel gyfoes Gymraeg ac yn dysgu sut i werthfawrogi'r cynnwys, y cymeriadau, themâu a phlot. Byddwch hefyd yn ymateb i'r nofel mewn ffordd bersonol a chreadigol.

UNED 2 (Hunaniaeth) - yn yr uned hon byddwch yn astudio testun gweledol h.y. ffilm neu raglen deledu, a byddwch yn cael trafodaeth grŵp ynglŷn â'r plot, y cymeriadau a'r themâu. Byddwch yn datblygu eich sgiliau gwrando ac ymateb ynghyd â'r sgil o gyfathrebu'n hyderus yn y Gymraeg.

UNED 3 (Agweddau) - yn yr uned hon byddwch yn astudio casgliad o farddoniaeth i ddysgu sut i werthfawrogi eu cynnwys, eu harddull a'u neges. Byddwch hefyd yn cyflwyno gwybodaeth ar lafar yn unigol ar destun o'ch dewis.

UNED 4a (Cysylltiadau Ieithyddol) - yn yr uned hon byddwch yn darllen amrywiaeth o destunau ysgrifenedig a byddwch yn dysgu sut i gyfuno a chrynhoi gwybodaeth. Byddwch hefyd yn ymateb yn greadigol i'r testunau mewn amrywiaeth o wahanol ffurfiau.

**SUT FYDDA I'N CAEL FY ASESU?**

ARHOLIAD - Bydd dau arholiad ysgrifenedig gwerth 60% o'r cymhwyster Dyfarniad Sengl ar gyfer unedau 1 a 4a. Bydd y ddau arholiad yn 90 munud o hyd a byddant yn cynnwys amrywiaeth o gwestiynau darllen a deall, ymatebion estynedig a'r cyfle i ysgrifennu'n greadigol.

ASESIAD DI-ARHOLIAD - Bydd dau asesiad di-arholiad gwerth 40% o'r cymhwyster Dyfarniad Sengl ar gyfer unedau 2 a 3. Bydd dau asesiad llafar (unigol a grŵp) ac un asesiad ysgrifenedig (gwaith cwrs).

**PA SGILIAU FYDDA' I'N EU DATBLYGU?**

Mae TGAU Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg yn bwnc craidd a fydd yn eich helpu i ddatblygu amrywiaeth o sgiliau a restir isod:

- y sgil a'r strategaeth o ddysgu iaith, sgiliau darllen, gwrando, siarad ac ysgrifennu
- sgiliau sy'n gysylltiedig â rhyngweithio fel rhan o bâr neu grŵp wrth wrando ar eraill, gan fynegi barn a
- dod i gasgliadau

- sgiliau creadigol ysgrifenedig trwy ddarllen ystod eang o ffurfiau sgiliau gwerthfawrogi llenyddiaeth
- sgiliau siarad cyhoeddus
- meithrin brwdfrydedd dros yr iaith Gymraeg ar gyfer astudiaeth pellach, yn y gweithle ac yn y
- gymuned.

**GYRFAOEDD YM MAES IAITH A LLENYDDIAETH GYMRAEG**

TGAU Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg - pwrpas y cymhwyster hwn yw eich ysbrydoli i fod yn ddinasyddion sy'n ymfalchïo yn niwylliant, hanes ac iaith eich cenedl. Mae swyddi a hysbysebir yng Nghymru fel arfer yn gofyn am y gallu i siarad Cymraeg fel hanfodol neu ddymunol. Os oes gennych chi gymhwyster TGAU Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg, mae gennych eisoes fantais dros eraill. Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn bwysig ac o fantais ymhob maes gan gynnwys addysg, iechyd a gofal, y llywodraeth, y cyfryngau ac adloniant, chwaraeon, y gyfraith, marchnata a llawer mwy. Mae'r daith i filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn un gyffrous ac rydych chi'n rhan ohoni.

Cod y Cwrs:



# TGAU Cymraeg: Iaith a Llenyddiaeth (Dwyradd)

**CYFLWYNIAD**

"Mae'r Gymraeg yn un o drysorau Cymru. Mae'n rhan o'r hyn sy'n ein diffinio fel pobl ac fel cenedl." (Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr, 2017, t.2). Uchelgais Llywodraeth Cymru yw cyrraedd y targed 'miliwn o siaradwyr Cymraeg' erbyn 2050 ac rydych chi'n un o'r miliwn! Dyma gymhwyster cyffrous, newydd ble byddwch yn astudio cyfoeth o lenyddiaeth fydd yn sbarduno'r dychymyg, yn meithrin eich chwilfrydedd ac yn eich paratoi i gyfathrebu a byw drwy gyfrwng y Gymraeg.

**BETH FYDDA' I'N EI ASTUDIO?**

UNED 1 (Naratif) - yn yr uned hon byddwch yn astudio nofel gyfoes Gymraeg ac yn dysgu sut i werthfawrogi'r cynnwys, cymeriadau, themâu a phlot. Byddwch yn ymateb yn bersonol a chreadigol i'r nofel hefyd.

UNED 2 (Hunaniaeth) - yn yr uned hon byddwch yn astudio testun gweledol h.y. ffilm neu raglen deledu, ac yn cynnal trafodaeth grŵp i drafod y plot, cymeriadau a themâu. Byddwch yn datblygu eich sgiliau gwrando ac ymateb yn ogystal â'r sgil o gyfathrebu'n hyderus yn y Gymraeg.

UNED 3 (Agweddau) - yn yr uned hon byddwch yn astudio casgliad o gerddi er mwyn dysgu sut i werthfawrogi eu cynnwys, arddull a neges. Byddwch hefyd yn cyflwyno gwybodaeth ar lafar yn unigol ar destun o'ch dewis.

UNED 4b (Cysylltiadau Ieithyddol) - yn yr uned hon byddwch yn darllen amrywiaeth o destunau ysgrifenedig ac yn dysgu sut i gyfuno a chrynhoi gwybodaeth. Byddwch hefyd yn ymateb yn greadigol i'r testunau mewn amrywiaeth o ffurfiau gwahanol.

UNED 5 (Ymateb a Chreu) - yn yr uned hon byddwch yn ymateb a rhyngweithio ar lafar fel grŵp i destun cyfoes gan ddatblygu'ch sgiliau mynegi barn. Byddwch hefyd yn cael y cyfle i ysgrifennu'n greadigol fel rhan o'r gwaith cwrs.

UNED 6 (Cyfleu Ystyr) - yn yr uned hon byddwch yn astudio casgliad o straeon byrion ac yn dysgu sut i gymharu a gwerthfawrogi testunau llenyddol.

**SUT FYDDA' I'N CAEL FY ASESU?**

ARHOLIAD - Bydd tri arholiad ysgrifenedig werth 60% o'r cymhwyster Dwyradd yn unedau 1, 4b a 6. Bydd arholiad unedau 1 a 6 yn 90 munud o hyd, gydag arholiad uned 4b yn 120 munud o hyd. Bydd yr arholiadau'n cynnwys amrywiaeth o gwestiynau darllen a deall, atebion estynedig a chyfle i ysgrifennu'n greadigol.

ASESIAD DI-ARHOLIAD - Bydd pum asesiad di-arholiad sy'n werth 40% o'r cymhwyster Dwyradd yn unedau 2, 3 a 5. Bydd dau asesiad llafar grŵp, un asesiad llafar unigol a dau asesiad ysgrifenedig (gwaith cwrs).

**PA SGILIAU FYDDA' I'N EU DATBLYGU?**

Mae TGAU Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg yn bwnc craidd fydd yn eich helpu i ddatblygu'r amrywiaeth o sgiliau isod:

- datblygu sgiliau a strategaethau dysgu iaith
- datblygu sgiliau darllen, gwrando, siarad ac ysgrifennu
- datblygu sgiliau rhyngweithio mewn pâr neu grwp gan wrando ar eraill, mynegi barn a dod i gasgliadau
- datblygu sgiliau creadigol yn ysgrifenedig a thrwy ddarllen ystod eang o ffurfiau
- datblygu sgiliau gwerthfawrogi llenyddiaeth
- datblygu sgiliau siarad cyhoeddus
- meithrin chwilfrydedd ynglŷn â'r Gymraeg ar gyfer astudiaethau pellach, yn y gweithle a'r gymuned.

**GYRFAOEDD YM MAES 'IAITH A LLENYDDIAETH GYMRAEG'**

TGAU Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg - diben y cymhwyster hwn yw eich ysbrydoli i fad yn ddinasyddion sy'n ymfalchïo yn niwylliant, hanes ac iaith eich gwlad. Mae swyddi yng Nghymru yn aml yn gofyn am y gallu i siarad Cymraeg fel rhywbeth hanfodol neu ddymunol. Os oes gennych chi gymhwyster TGAU Cymraeg Iaith a Llenyddiaeth rydych chi ar y blaen i'r lleill cyn dechrau! Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn bwysig ac o fantais ym mhob maes gan gynnwys addysg, iechyd a gofal, y llywodraeth, y cyfryngau, adloniant, chwaraeon a llawer mwy. Mae'r daith at y miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn un cyffrous ac rydych chi'n rhan ohoni.

Cod y Cwrs:

# TGAU Cymraeg: Iaith a Llenyddiaeth (Dwyradd)



**CYFLWYNIAD**

"Mae'r Gymraeg yn un o drysorau Cymru. Mae'n rhan o'r hyn sy'n ein diffinio fel pobl ac fel cenedl." (Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr, 2017, t.2). Uchelgais Llywodraeth Cymru yw cyrraedd y targed 'miliwn o siaradwyr Cymraeg' erbyn 2050 ac rydych chi'n un o'r miliwn! Dyma gymhwyster cyffrous, newydd ble byddwch yn astudio cyfoeth o lenyddiaeth fydd yn sbarduno'r dychymyg, yn meithrin eich chwilfrydedd ac yn eich paratoi i gyfathrebu a byw drwy gyfrwng y Gymraeg.

**BETH FYDDA' I'N EI ASTUDIO?**

UNED 1 (Naratif) - yn yr uned hon byddwch yn astudio nofel gyfoes Gymraeg ac yn dysgu sut i werthfawrogi'r cynnwys, cymeriadau, themâu a phlot. Byddwch yn ymateb yn bersonol a chreadigol i'r nofel hefyd.

UNED 2 (Hunaniaeth) - yn yr uned hon byddwch yn astudio testun gweledol h.y. ffilm neu raglen deledu, ac yn cynnal trafodaeth grŵp i drafod y plot, cymeriadau a themâu. Byddwch yn datblygu eich sgiliau gwrando ac ymateb yn ogystal â'r sgil o gyfathrebu'n hyderus yn y Gymraeg.

UNED 3 (Agweddau) - yn yr uned hon byddwch yn astudio casgliad o gerddi er mwyn dysgu sut i werthfawrogi eu cynnwys, arddull a neges. Byddwch hefyd yn cyflwyno gwybodaeth ar lafar yn unigol ar destun o'ch dewis.

UNED 4b (Cysylltiadau Ieithyddol) - yn yr uned hon byddwch yn darllen amrywiaeth o destunau ysgrifenedig ac yn dysgu sut i gyfuno a chrynhoi gwybodaeth. Byddwch hefyd yn ymateb yn greadigol i'r testunau mewn amrywiaeth o ffurfiau gwahanol.

UNED 5 (Ymateb a Chreu) - yn yr uned hon byddwch yn ymateb a rhyngweithio ar lafar fel grŵp i destun cyfoes gan ddatblygu'ch sgiliau mynegi barn. Byddwch hefyd yn cael y cyfle i ysgrifennu'n greadigol fel rhan o'r gwaith cwrs.

UNED 6 (Cyfleu Ystyr) - yn yr uned hon byddwch yn astudio casgliad o straeon byrion ac yn dysgu sut i gymharu a gwerthfawrogi testunau llenyddol.

**SUT FYDDA' I'N CAEL FY ASESU?**

ARHOLIAD - Bydd tri arholiad ysgrifenedig werth 60% o'r cymhwyster Dwyradd yn unedau 1, 4b a 6. Bydd arholiad unedau 1 a 6 yn 90 munud o hyd, gydag arholiad uned 4b yn 120 munud o hyd. Bydd yr arholiadau'n cynnwys amrywiaeth o gwestiynau darllen a deall, atebion estynedig a chyfle i ysgrifennu'n greadigol.

ASESIAD DI-ARHOLIAD - Bydd pum asesiad di-arholiad sy'n werth 40% o'r cymhwyster Dwyradd yn unedau 2, 3 a 5. Bydd dau asesiad llafar grŵp, un asesiad llafar unigol a dau asesiad ysgrifenedig (gwaith cwrs).

**PA SGILIAU FYDDA' I'N EU DATBLYGU?**

Mae TGAU Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg yn bwnc craidd fydd yn eich helpu i ddatblygu'r amrywiaeth o sgiliau isod:

- datblygu sgiliau a strategaethau dysgu iaith
- datblygu sgiliau darllen, gwrando, siarad ac ysgrifennu
- datblygu sgiliau rhyngweithio mewn pâr neu grwp gan wrando ar eraill, mynegi barn a dod i gasgliadau
- datblygu sgiliau creadigol yn ysgrifenedig a thrwy ddarllen ystod eang o ffurfiau
- datblygu sgiliau gwerthfawrogi llenyddiaeth
- datblygu sgiliau siarad cyhoeddus
- meithrin chwilfrydedd ynglŷn â'r Gymraeg ar gyfer astudiaethau pellach, yn y gweithle a'r gymuned.

**GYRFAOEDD YM MAES 'IAITH A LLENYDDIAETH GYMRAEG'**

TGAU Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg - diben y cymhwyster hwn yw eich ysbrydoli i fad yn ddinasyddion sy'n ymfalchïo yn niwylliant, hanes ac iaith eich gwlad. Mae swyddi yng Nghymru yn aml yn gofyn am y gallu i siarad Cymraeg fel rhywbeth hanfodol neu ddymunol. Os oes gennych chi gymhwyster TGAU Cymraeg Iaith a Llenyddiaeth rydych chi ar y blaen i'r lleill cyn dechrau! Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn bwysig ac o fantais ym mhob maes gan gynnwys addysg, iechyd a gofal, y llywodraeth, y cyfryngau, adloniant, chwaraeon a llawer mwy. Mae'r daith at y miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn un cyffrous ac rydych chi'n rhan ohoni.

Cod y Cwrs: Code:



# TGAU Cymraeg: Iaith a Llenyddiaeth (Dyfarniad Sengl)

CYFLWYNIAD

"Mae'r Gymraeg yn un o drysorau Cymru. Mae'n rhan o'r hyn sy'n ein diffinio fel pobl ac fel cenedl." (Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr, 2017, t.2). Uchelgais Llywodraeth Cymru yw cyrraedd y targed 'miliwn o siaradwyr Cymraeg' erbyn 2050 ac rydych chi'n un o'r miliwn! Dyma gymhwyster cyffrous, newydd ble byddwch yn astudio cyfoeth o lenyddiaeth fydd yn sbarduno'r dychymyg, yn meithrin eich chwilfrydedd ac yn eich paratoi i gyfathrebu a byw drwy gyfrwng y Gymraeg.

**BETH FYDDA' I'N EI ASTUDIO?**

UNED 1 (Naratif) - yn yr uned hon byddwch yn astudio nofel gyfoes Gymraeg ac yn dysgu sut i werthfawrogi'r cynnwys, cymeriadau, themâu a phlot. Byddwch yn ymateb yn bersonol a chreadigol i'r nofel hefyd.

UNED 2 (Hunaniaeth) - yn yr uned hon byddwch yn astudio testun gweledol h.y. ffilm neu raglen deledu, ac yn cynnal trafodaeth grŵp i drafod y plot, cymeriadau a themâu. Byddwch yn datblygu eich sgiliau gwrando ac ymateb yn ogystal gyfathrebu'n hyderus yn y Gymraeg. â'r sgil o gyfathrebu'n hyderus yn y Gymraeg.

UNED 3 (Agweddau) - yn yr uned hon byddwch yn astudio casgliad o gerddi er mwyn dysgu sut i werthfawrogi eu cynnwys, arddull a neges. Byddwch hefyd yn cyflwyno gwybodaeth ar lafar yn unigol ar destun o'ch dewis.

UNED 4a (Cysylltiadau Ieithyddol) - yn yr uned hon byddwch yn darllen amrywiaeth o destunau ysgrifenedig ac yn dysgu sut i gyfuno a chrynhoi gwybodaeth. Byddwch hefyd yn ymateb yn greadigol i'r testunau mewn amrywiaeth o ffurfiau gwahanol.

**SUT FYDDA' I'N CAEL FY ASESU?**

ARHOLIAD - Bydd dau arholiad ysgrifenedig werth 60% o'r cymhwyster Gradd Unigol yn unedau 1 a 4a. Bydd y ddau arholiad yn 90 munud o hyd ac yn cynnwys amrywiaeth o gwestiynau darllen a deall, atebion estynedig a chyfle i ysgrifennu'n greadigol.

ASESIAD D1-ARHOLIAD - Bydd dau asesiad di-arholiad sy'n werth 40% o'r cymhwyster Gradd Unigol yn unedau 2 a 3. Bydd dau asesiad llafar (unigol a grŵp) ac un asesiad ysgrifenedig (gwaith cwrs).

**PA SGILIAU FYDDA' I'N EU DATBLYGU?**

Mae TGAU Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg yn bwnc craidd fydd yn eich helpu i ddatblygu'r amrywiaeth o sgiliau isod:

- datblygu sgiliau a strategaethau dysgu iaith
- datblygu sgiliau darllen, gwrando, siarad ac ysgrifennu
- datblygu sgiliau rhyngweithio mewn pâr neu grŵp gan wrando ar eraill, mynegi barn a dod i gasgliadau
- datblygu sgiliau creadigol yn ysgrifenedig a thrwy ddarllen ystod eang o ffurfiau
- datblygu sgiliau gwerthfawrogi llenyddiaeth
- datblygu sgiliau siarad cyhoeddus
- meithrin chwilfrydedd ynglŷn â'r Gymraeg ar gyfer astudiaethau pellach, yn y gweithle a'r gymuned.

**GYRFAOEDD YM MAES 'IAITH A LLENYDDIAETH GYMRAEG'**

TGAU Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg - diben y cymhwyster hwn yw eich ysbrydoli i fad yn ddinasyddion sy'n ymfalchïo yn niwylliant, hanes ac iaith eich gwlad. Mae swyddi yng Nghymru yn aml yn gofyn am y gallu i siarad Cymraeg fel rhywbeth hanfodol neu ddymunol. Os oes gennych chi gymhwyster TGAU Cymraeg Iaith a ddinasyddion sy'n ymfalchïo yn niwylliant, hanes ac iaith eich gwlad. Mae swyddi yng Nghymru yn aml yn gofyn am y gallu i siarad Cymraeg fel rhywbeth hanfodol neu ddymunol. Os oes gennych chi gymhwyster TGAU Cymraeg Iaith a Llenyddiaeth rydych chi ar y blaen i'r lleill cyn dechrau! Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn bwysig ac o fantais ym mhob maes gan gynnwys addysg, iechyd a gofal, y llywodraeth, y cyfryngau, adloniant, chwaraeon a llawer mwy. Mae'r daith at y miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn un cyffrous ac rydych chi'n rhan ohoni.

Cod y Cwrs: I'w gadarnhau yn 2026



# (Diwygiedig) CBAC TGAU Gwyddorau Ar wahân (Bioleg, Cemeg a Ffiseg)

**Cyflwyniad**

Mae CBAC a Chymwysterau Cymru (QW) wedi gwneud y penderfyniad pwysig i ymestyn Cymwysterau presennol CBAC Gwyddorau Bioleg, Cemeg a Ffiseg Ar Wahân tan 2031. Bydd y cymwysterau hyn yn newid ychydig iddynt gyd-fynd â chymhwyster TGAU newydd CBAC Y Gwyddorau (Gwobr Ddwbl) yng Nghymru.

'Rydym yn croesawu'r penderfyniad yma yn Ysgol Friars!

Bydd ein disgyblion yn parhau i gael cyfle i gyflawni graddau ar wahân ym mhob un o'r gwyddorau tan 2031!

Mae Ysgol Friars yn ymfalchïo ei bod yn gallu cynnig yr ystod ehangaf posibl o gymwysterau. Credwn y dylai pob grŵp o ddysgwyr gael mynediad i'r cyrsiau a'r cymwysterau priodol fydd yn galluogi ein disgyblion orau i wneud cynnydd i fynd i feysydd addysg pellach ac uwch.

I'r perwyl hwnnw, byddwn yn parhau i gynnig y Cymhwyster TGAU Gwyddorau ar Wahân i'n dysgwyr gan sicrhau bod Ysgol Friars yn parhau yn ganolfan rhagoriaeth gwyddonol, o ran TGAU ac ar ôl 16 oed.

Cyhoeddir manyleb TGAU Gwyddoniaeth Ar Wahân newydd yn ystod blwyddyn academaidd 2025-2026, yn barod ar gyfer ei addysgu am y tro cyntaf ym mis Medi 2026.

Mae cynnwys y pwnc ar draws y tri maes gwyddorau yn parhau heb newid ar gyfer y cymhwyster newydd. Bydd newidiadau i'r sgiliau ymholi gwyddonol gaiff eu hasesu ond dyna'r cwbl. E-bostiwch Mr Varty i gael rhagor o fanylion.

Mae dwy haen mynediad ar gyfer y cymhwyster hwn: Haen Uwch: A* - D Haen Sylfaen: C – G. Bydd dyfarniad cyntaf y cymhwyster diwygiedig ym mis Awst 2028.

Mae'r rhain yn gymwysterau unedig (tair uned i gyd ym mhob un o'r gwyddorau). Bydd Uned 1 yn cael ei haddysgu gan ei hasesu yn allanol ym Mlwyddyn 10 (cyfres arholiadau Mai/Mehefin) tra bo Uned 2 yn cael ei dysgu a'i hasesu yn allanol ym Mlwyddyn 11 (cyfres arholiadau Mai/Mehefin). Bydd arholiadau ymarferol Uned 3 yn cael eu haddysgu a'u cyflwyno mewn dosbarthiadau gwyddorau yn ystod hanner cyntaf tymor y gwanwyn (Ionawr i Chwefror) a byddant yn cael eu hasesu yn allanol gan CBAC.

**Beth sy'n digwydd ar ôl y cwrs yma?**

Ar ôl cwblhau'r cwrs TGAU Gwyddorau ar Wahân, rydym yn cynnig pedwar cwrs cyffrous ôl-16 Lefel 3 mewn addysg bellach yn Ysgol Friars.

Mae'r cyrsiau hyn yn boblogaidd iawn gyda disgyblion ôl-16 yn Ysgol Friars, a bydd y cymhwyster TGAU newydd yn galluogi disgyblion i gael mynediad i'r cyrsiau hyn.

Y rhain yw:

Lefel A/UG Bywydeg
Lefel A/UG Cemeg
Lefel A/UG Ffiseg
Tystysgrif Gwyddor Feddygol Lefel 3/Estynedig Tystysgrif

**Syniadau Gyrfa**

Peiriannydd, Technegydd Cemegol, Gwyddonydd Amaethyddol, Meddyg, Deintydd, Dylunydd Cynnyrch, Fferyllydd Fforensig, Gwyddonydd Amgylcheddol, Fferyllydd, Dylunio/peirianneg hedfan, Biocemegydd, Tocsolegydd, Gwyddonydd meddygol, Gwyddonydd deunyddiau, Ffarmocolegydd, Peiriannydd Cemegol a llawer mwy.

**Neges bwysig gan Mr Varty a'r Gyfadran Gwyddoniaeth:**

Mae'r cymwysterau TGAU Gwyddoniaeth Ar Wahân newydd ychydig yn wahanol i'r cymwysterau a fu.
I gael rhagor o fanylion anfonwch e-bost at:
vartyd7@hebcymru.net



**Mr D Varty**
**Pennaeth Gwyddoniaeth**



**Ms C Shacklady**



**Mr S Bukoan**

Cod y Cwrs: C00/4968/2



# (Newydd) CBAC TGAU Y Gwyddorau (Cymhwyster Dwbl)

**Cyflwyniad**

Bydd y cymhwyster TGAU Y Gwyddorau (Dyfarniad Dwbl) yn disodli'r cymhwyster TGAU Gwyddoniaeth y CBAC a fu o fis Medi 2026. Bydd cymwysterau'n cael eu dyfarnu am y tro cyntaf i'n disgyblion Blwyddyn 11 ym mis Awst 2028. Mae'r cymhwyster newydd yn cael ei ategu gan fframwaith y Cwricwlwm i Gymru ac fe'i cynlluniwyd i sicrhau y gall dysgwyr barhau i wneud cynnydd tuag at y pedwar diben wrth astudio ar gyfer y cymhwyster hwn.

Mae dwy haen mynediad ar gyfer y cymhwyster hwn: Haen Uwch: A* - D Haen Sylfaen: C – G

Dyfernir gradd ddwbl y cymhwyster ar raddfa wyth gradd A*A* - GG. Ni fydd graddau cymysg yn cael eu dyfarnu mwyach e.e. A*A, AB, BC ac ati. Bydd dyfarniad cyntaf y cymhwyster ym mis Awst 2028.

Mae hwn yn gymhwyster unedol (saith uned i gyd). Bydd Unedau 1 – 3 yn cael eu haddysgu a'u hasesu'n allanol ym Mlwyddyn 10 (cyfres arholiadau Mai/Mehefin) tra bydd Unedau 4 – 6 yn cael eu haddysgu ac yn cael eu hasesu yn allanol ym Mlwyddyn 11 (cyfres arholiadau Mai/Mehefin). Bydd arholiadau ymarferol Uned 7 yn cael eu dysgu a'u cyflwyno mewn dosbarthiadau gwyddoniaeth yn ystod hanner cyntaf tymor y gwanwyn (Ionawr i Chwefror) ac yn cael eu hasesu yn allanol gan CBAC.

**Sut fydd disgyblion yn cael eu hasesu?**

Mae Unedau 1 - 3 yn arholiadau ysgrifenedig haenog a aseswyd yn allanol a'u marcio gan CBAC (14.3% o'r cymhwyster). Mae Unedau 4 – 6 yn arholiadau ysgrifenedig haenog a aseswyd yn allanol a'u marciwyd gan CBAC (15.7% o'r cymhwyster).

Nid yw arholiadau Uned 7 yn haenog (10% o'r cymhwyster) ac maent yn cael eu hasesu'n allanol (wedi'u marcio gan CBAC).

Uned 1: Bioleg – Sail Bywyd
Uned 2: Cemeg – Sylweddau Cemegol a Sut Maen Nhw yn Ymddwyn
Uned 3: Ffiseg – Grymoedd, Mudiant a'r Bydysawd
Uned 4: Bioleg –Parhad Bywyd
Uned 5: Cemeg – Bondio Cemegol, Adweithiau ac Adnoddau
Uned 6: Ffiseg – Tonnau, Trydan ac Egni
Uned 7: Ymholiad Gwyddonol (Arholiad Ymarferol)

**Neges bwysig gan Mr Varty a'r Gyfadran Gwyddoniaeth:**

Mae'r cymhwyster TGAU newydd Y Gwyddorau (Dyfarniad Dwbl) yn sylweddol wahanol i'r cymhwyster a fu.

Am ragor o fanylion, anfonwch ebost at:vartyd7@hebcymru.net



**Mr D Varty Pennaeth Gwyddorau**

**Beth fydd disgyblion yn ei ddysgu?**

Bydd cynnwys y pwnc ar gyfer cymhwyster TGAU Y Gwyddorau yn grymuso disgyblion trwy eu helpu i ddeall sut mae gwahanol feysydd gwyddoniaeth yn cysylltu â'u bywydau ar lefelau personol, lleol, cenedlaethol a byd-eang. Trwy archwilio materion a ffenomenau gwyddonol yn y byd go iawn, mae disgyblion yn cael dealltwriaeth o sut mae gwyddoniaeth yn effeithio ar eu profiadau bob dydd a'r byd o'u cwmpas. Mae cynnwys y fanyleb yn annog datblygiad sgiliau meddwl creadigol a datrys problemau, gan ganiatáu i ddisgyblion fynd i'r afael â heriau gydag arloesedd a rhesymeg. Mae hefyd yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr ar gyfer gwaith ymchwil annibynnol, gan feithrin chwilfrydedd a meddwl dadansoddol. Yn ogystal, bydd disgyblion yn cael eu hannog i gymhwyso sgiliau ac offer digidol drwy gydol eu hastudiaethau, gan eu paratoi ar gyfer byd modern, sy'n cael ei yrru gan dechnoleg.

Mae ymchwiliad gwyddonol yn sylfaenol i'r cymhwyster hwn. Ymchwiliad gwyddonol yw'r broses eang o ofyn cwestiynau, archwilio syniadau a cheisio dealltwriaeth am ffenomena naturiol. Mae yn cynnwys sgiliau ymarferol a sgiliau ymchwiliol ynghyd â gweithgareddau gaiff eu gyrru gan chwilfrydedd fel cwestiynu, gwylio, casglu gwybodaeth a meddwl yn feirniadol. Gall ymholiad gwyddonol gynnwys popeth o lunio cwestiynau gwaith ymchwil i ddylunio a chynnal arbrofion.

Mae pob uned yn darparu cyfleoedd i wella sgiliau ymholiadau gwyddonol. Bydd addysgu a dysgu yn ymgorffori profiadau ymarferol ar gyfer datblygu sgiliau ymholi.

**Beth sy'n digwydd ar ôl y cwrs yma?**

Ar ôl cwblhau'r cwrs TGAU, Y Gwyddorau (Cymhwyster Dwbl), rydym yn cynnig pedwar cwrs addysg bellach cyffrous ôl-16 Lefel 3 yn Ysgol Friars. Mae'r cyrsiau hyn yn boblogaidd iawn gyda disgyblion ôl-16 yn Ysgol Friars, a bydd y cymhwyster TGAU yn galluogi disgyblion i gael mynediad i'r cyrsiau hyn. Y rhain yw:

Lefel A/UG Bioleg
Lefel A/UG Cemeg
Lefel A/UG Ffiseg
Tystysgrif Gwyddor Feddygol Lefel 3/Estynedig Tystysgrif

**Syniadau Gyrfa**

Peiriannydd, Technegydd Cemegol, Gwyddonydd Amaethyddol, Meddyg, Deintydd, Dylunydd Cynnyrch, Fferyllydd Fforensig, Gwyddonydd Amgylcheddol, Fferyllydd, Dylunio/Peirianneg Hedfan, Biocemegydd, Tocsolegydd, Gwyddonydd Meddygol, Gwyddonydd Deunyddiau, Ffarmacolegydd, Peiriannydd Cemegol a llawer mwy.

Cod y Cwrs: C00/5167/2



# (Newydd) CBAC TGAU Gwyddorau Integredig (Dyfarniad Sengl)

**Cyflwyniad**

Bydd y cymhwyster TGAU Gwyddoniaeth Integredig (Dyfarniad Sengl) yn disodli dau gymhwyster a fu, o fis Medi 2026 ymlaen. Y cymwysterau blaenorol hyn yw CBAC TGAU Gwyddoniaeth Gymhwysol (Dyfarniad Sengl) a CBAC TGAU Gwyddoniaeth Gymhwysol (Dyfarniad Dwbl). Nid yw'r cymhwyster newydd wedi'i gynllunio i alluogi disgyblion i symud ymlaen i gyrsiau addysg bellach Lefel 3 UG/Safon Uwch ôl-16, er hynny, gall y disgyblion gamu ymlaen i'n cyrsiau poblogaidd Lefel 3 Gwyddoniaeth Feddygol.

Bydd cymwysterau'n cael eu dyfarnu am y tro cyntaf i'n disgyblion Blwyddyn 11 ym mis Awst 2028. Mae'r cymhwyster newydd yn cael ei ategu gan fframwaith Cwricwlwm i Gymru ac mae wedi ei ddylunio i sicrhau bod dysgwyr yn gallu parhau i wneud cynnydd tuag at y pedwar diben tra'n astudio ar gyfer y cymhwyster hwn.

Mae dwy haen mynediad ar gyfer y cymhwyster hwn: Haen Uwch: A* - D Haen Sylfaen: C – G

Dyfernir gradd ddwbl y cymhwyster ar raddfa wyth gradd A* - G. Dyfarniad cyntaf y cymhwyster fydd ym mis Awst 2028. Mae hwn yn gymhwyster unedol (tair uned i gyd) a gellir cofrestru disgyblion ar wahanol haenau ar draws yr unedau.

Bydd Uned 1 yn cael ei addysgu a'i asesu'n allanol ym Mlwyddyn 10 (cyfres arholiadau Mai/Mehefin) tra bydd Uned 2 yn cael ei addysgu a'i asesu'n allanol ym Mlwyddyn 11 (cyfres arholiadau Mai/Mehefin).

Bydd arholiad ymarferol Uned 3 yn cael ei addysgu a'i gyflwyno mewn ystafelloedd dosbarth gwyddoniaeth yn ystod hanner cyntaf tymor y Gwanwyn (Ionawr i Chwefror) a'i asesu yn allanol gan CBAC.

**Sut fydd disgyblion yn cael eu hasesu?**

Mae Uned 1 yn arholiad ysgrifenedig haenog wedi'i asesu yn allanol, wedi'i farcio gan CBAC (45% o'r cymhwyster).

Mae Uned 2 yn arholiad ysgrifenedig haenog wedi'i asesu yn allanol, wedi'i farcio gan CBAC (45% o'r cymhwyster).

Nid yw arholiad Uned 3 wedi'i haenu (10% o'r cymhwyster) ac mae'n cael ei asesu'n allanol (wedi'i farcio gan CBAC).

Uned 1: Byw ar y Ddaear

Uned 2: Gwyddoniaeth mewn Byd sy'n Newid

Uned 3: Ymholiad Gwyddonol (Arholiad Ymarferol)

**Neges bwysig gan Ms Summerfield a'r Gyfadran Wyddoniaeth:**

Mae'r cymhwyster TGAU Gwyddoniaeth Integredig newydd (Gwobr Sengl) yn sylweddol wahanol i'r cymwysterau a fu. Am ragor o fanylion, anfonwch e-bost at: summerfieldc1@hwbcymru.net



**Ms C Summerfield**
**Athrawes Gwyddoniaeth**

**Beth fydd disgyblion yn ei ddysgu?**

Mae TGAU Gwyddoniaeth Integredig wedi'i gynllunio i rymuso disgyblion trwy ddangos sut mae cysyniadau gwyddonol ar draws disgyblaethau yn rhyng-gysylltiedig ac yn berthnasol i fywyd bob dydd - yn bersonol, yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang.

Trwy ymchwilio i heriau gwyddonol a ffenomena go iawn, bydd disgyblion yn ennill dealltwriaeth ddofn o sut mae gwyddoniaeth yn siapio'r byd o'u hamgylch.

Yn Uned 1: Byw ar y Ddaear, mae disgyblion yn datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau gwyddonol o fewn themâu iechyd dynol, adnoddau a thrafnidiaeth y Ddaear. Mae'r rhain yn eu helpu i gynnal eu hiechyd a'u lles a chyfrannu at ddyfodol cynaliadwy.

Yn Uned 2: Gwyddoniaeth mewn Byd sy'n Newid, mae disgyblion yn archwilio themâu dylanwad dynol ar y Ddaear, bodau dynol yn y gofod ac adnabod sylweddau anhysbys. Mae'r meysydd hyn yn eu helpu i wneud dewisiadau gwybodus i amddiffyn y blaned, deall manteision a heriau archwilio'r gofod a chymhwyso technegau dadansoddol mewn cyd-destunau ymarferol.

Mae ymchwiliad gwyddonol yn sylfaenol i'r cymhwyster hwn. Ymchwiliad gwyddonol yw'r broses eang o ofyn cwestiynau, archwilio syniadau a cheisio dealltwriaeth am ffenomenau naturiol.

Mae'n cynnwys sgiliau ymarferol ac ymchwilio ochr yn ochr â gweithgareddau sydd wedi eu gyrru gan chwilfrydedd fel cwestiynu, arsylwi, casglu gwybodaeth a meddwl yn feirniadol. Gall ymholiad gwyddonol gynnwys popeth o lunio cwestiynau gwaith ymchwil i ddylunio a chynnal arbrofion.

Mae unedau 1 a 2 yn darparu cyfleoedd i wella sgiliau ymholiad gwyddonol. Bydd addysgu a dysgu yn ymgorffori profiadau ymarferol ar gyfer datblygu sgiliau ymholi

**Beth sy'n digwydd ar ôl y cwrs hwn?**

Ar ôl cwblhau'r cwrs TGAU, Y Gwyddorau (Dyfarniad Dwbl), rydym yn cynnig dau gwrs addysg bellach cyffrous ôl-16 Lefel 3 yn Ysgol Friars.

Tystysgrif Gwyddor Feddygol Lefel 3 (610/3047/8)

Tystysgrif Estynedig Gwyddor Feddygol Lefel 3 (610/3048/X)

Mae'r cyrsiau hyn yn boblogaidd iawn gyda disgyblion ôl-16 yn Ysgol Friars ac yn cael eu rhedeg yn ddeheuig gan Ms Summerfield, Mrs Grove a Mrs Owens.

**Syniadau Gyrfa**

Bydd y cymhwyster TGAU Gwyddoniaeth Integredig (Dyfarniad Sengl) yn galluogi disgyblion i symud ymlaen i'n hystod o gyrsiau galwedigaethol ôl-16 (Tystysgrif Gwyddoniaeth Feddygol Lefel 3 a Tystysgrif Estynedig Gwyddoniaeth Feddygol Lefel 3).

Mae'r cymwysterau ôl-16 hyn yn arfogi disgyblion â'r wybodaeth wyddonol a'r ddealltwriaeth sy'n cefnogi dilyniant i ystod o rolau swyddi o fewn gofal iechyd. Fel arall, mae cyfleoedd ar gael i ddisgyblion symud ymlaen i swyddi yn y gwyddorau y ffisiolegol. Mae cyfran sylweddol o'r cyfleoedd gyrfa yn y sectorau hyn ar lefel gradd. Pan gânt eu cefnogi gan gymwysterau ôl-16 priodol eraill, bydd y Tystysgrifau Gwyddorau Meddygol Lefel 3 yn galluogi dilyniant i addysg uwch mewn ystod o Raglenni Gwyddoniaeth Gymhwysol, megis gwyddorau biofeddygol, gwyddorau bywyd a ffisioleg.

Cod y Cwrs: 601/7522/9



# AQA Tystysgrif Gwyddoniaeth Lefel Mynediad (Dyfarniad Sengl a Dyfarniad Dwbl)

**Cyflwyniad a Chefndir**

Bydd y cymhwyster Tystysgrif Gwyddoniaeth Lefel Mynediad AQA yn disodli cyn-gymhwyster Tystysgrif Gwyddoniaeth Lefel Mynediad CBAC, o fis Medi 2026.
Mae AQA Education (*Assessment and Qualification Alliance* gynt), yn gorff dyfarnu yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon sy'n cynnig ystod eang o gymwysterau TGAU ac ôl-16.

O fis Medi 2026, mae CBAC a Chymwysterau Cymru wedi penderfynu cyfyngu yr hyn mae eu cwricwlwm yn ei gynnig i ddysgwyr oed 14 i 16 yng Nghymru drwy roi'r gorau i'r cymhwyster Tystysgrif Gwyddoniaeth Lefel Mynediad.

Mae Ysgol Friars yn ysgol sy'n ymfalchïo mewn gallu cynnig yr ystod ehangaf o gymwysterau posibl. Credwn y dylai pob grŵp o ddysgwyr gael mynediad at gyrsiau a chymwysterau priodol sy'n galluogi ein disgyblion orau i wneud cynnydd i'r byd ôl-16.

I'r perwyl hwnnw, rydym wedi gwneud penderfyniad i gynnig Tystysgrif Lefel Mynediad AQA ar gyfer y disgyblion hynny sydd angen cwricwlwm ehangach mewn gwyddoniaeth.

**Pam dewis Tystysgrif Lefel Mynediad (ELC) AQA ar gyfer Gwyddoniaeth?**

Mae AQA yn dylunio cymwysterau i alluogi myfyrwyr i ymgysylltu, archwilio, mwynhau a llwyddo mewn gwyddoniaeth. Mae Tystysgrifau Lefel Mynediad (ELC) yn gymwysterau a gydnabyddir yn genedlaethol sy'n rhoi cyfle i fyfyrwyr gyflawni dyfarniad ardystiedig. Mae AQA yn defnyddio iaith syml yn eu hasesiadau i ganiatáu i ddisgyblion ganolbwyntio ar y wyddoniaeth a chyflawni'r canlyniadau maent yn eu haeddu.

Mae Tystysgrif Lefel Mynediad AQA yn arfogi myfyrwyr gyda sgiliau a gwybodaeth y gellir eu trosglwyddo i leoliadau addysgol a gyrfa gan ddarparu cwrs gwerth chweil i ddisgyblion o wahanol oedrannau ac o amrywiol gefndiroedd o ran addysg gyffredinol ac addysg gydol oes.

**Neges bwysig gan Ms Summerfield a'r Gyfadran Wyddoniaeth:**

Mae'r cymhwyster Tystysgrif Lefel Mynediad AQA newydd yn sylweddol wahanol i'r Dystysgrif Lefel Mynediad CBAC sy'n dod i ben. Am ragor o fanylion, anfonwch e-bost at:
summerfieldc1@hwbcymru.net

**Sut fydd yr ELC yn cael ei ddyfarnu?**

Mae'r cymhwyster hwn yn llinol, sy'n golygu bod disgyblion yn cyflwyno eu hasesiadau ar ddiwedd y cwrs ym Mlwyddyn 11. Mae'r asesu'n digwydd trwy gwblhau'r aseiniadau a osodwyd yn allanol (ESAs) ac aseiniadau a ddyfeisiwyd gan Athro (TDAs). Mae ESAs yn brofion ysgrifenedig byr 45 munud (uchafswm o 20 marc) ac maent yn digwydd mewn ystafell ddosbarth o dan reolaeth lem gan athro, fel arholiad byr. Mae TDAs yn digwydd mewn ystafelloedd dosbarth o dan reolaeth gymedrol athrawon, fel darnau o waith cwrs neu Asesiadau Di-arholiad (NEA). Nid oes terfyn amser ar gyfer TDAs (uchafswm o 15 marc) ac maent yn cynnwys darn byr o waith ymarferol.
Dyfernir tystysgrif ELC Dyfarniad Sengl pan fydd disgyblion yn cwblhau tri ESA a thri TDA. Dau asesiad o gymysgedd o chwe elfen.
Dyfernir Tystysgrif ELC Dyfarniad Dwbl pan fydd disgyblion yn cwblhau chwe ESA a chwe TDA. Dau asesiad o'r chwech elfen i gyd.

Mae gan y Dystysgrif Dyfarniad Sengl a Dwbl dair lefel o ddyfarniad (Lefel 1, Lefel 2 a Lefel 3).
E-bostiwch Mrs Summerfield i gael rhagor o fanylion.

**Beth fydd disgyblion yn ei ddysgu?**

Mae'r fanyleb yn cynnwys chwe elfen. Dwy elfen bioleg, dwy elfen cemeg a dwy elfen ffiseg.
Mae gan bob elfen ddau asesiad: un ESA wedi'i osod yn allanol ac un TDA wedi'i osod yn fewnol

Elfen 1 – Bioleg: Y corff dynol
Elfen 2 – Bioleg: Yr Amgylchedd, Esblygiad ac Etifeddiaeth
Elfen 3 – Cemeg: Elfennau, Cymysgeddau a Chyfansoddion
Elfen 4 – Cemeg: Cemeg yn ein byd
Elfen 5 – Ffiseg: Egni, Grymoedd a Strwythur Mater
Elfen 6 – Ffiseg: Trydan, Magnetedd a Thonnau



**Ms C Summerfield**
**Athrawes Gwyddoniaeth**

**Syniadau Gyrfa**

Manwerthu, Gwasanaethau gofal, Addysg a'r blynyddoedd cynnar, Iechyd a gwyddoniaeth, Gwallt a harddwch, Trafnidiaeth a logisteg, Gwasanaethau diogelu, Busnes a gweinyddiaeth, Adeiladu a'r amgylchedd adeiledig, Arlwyo a lletygarwch a llawer mwy.

Cod y Cwrs:




# TGAU Newydd Saesneg Iaith a Llenyddiaeth Cyfun - Dyfarniad Dwbl

**Nodau'r cwrs:**
-gwerthfawrogi sut mae iaith yn ein cysylltu â'r byd o'n cwmpas trwy ymgysylltu â'r gair llafar a testunau ysgrifenedig o ystod o gyfnodau, lleoedd a diwylliannau
- darllen a gwrando ar ystod o destunau llafar ac ysgrifenedig, gan ystyried sut mae iaith, cywair ac arddull yn cyfleu ystyr
- deall arwyddocâd pwrpas, cynulleidfa, cyfrwng a chyd-destun wrth gyfathrebu, mynegi, deall ac ymateb i iaith
- mynegi eu hunain wrth siarad ac ysgrifennu trwy ddefnyddio Saesneg clir, cywir, rhugl a chreadigol
- datblygu a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o eirfa, gramadeg a'r ffyrdd o ddefnyddio'r iaith Saesneg

**Beth fydda' i'n ei astudio?**

- Amrywiaeth o waith Ffuglen a Gwaith Ffeithiol
- Y Nofel - Llenyddiaeth Fictoraidd neu Llenyddiaeth yr 20fed ganrif
- Barddoniaeth- barddoniaeth trwy'r oesau a dadansoddi barddoniaeth nad ydych wedi'i weld o'r blaen
- Shakespeare- testun drama gyfan
- Sgiliau Darllen
- Sgiliau Ysgrifennu
- Sgiliau Llefaredd

**Sut fydda' i'n cael fy Asesu?**
Dyfarniad Dwbl: Unedau 1-6
Cyfanswm o 6 Asesiad Di-arholiad (NEA) dros gyfnod y 2 flynedd - 3 NEA ysgrifenedig, 3 NEA Llafaredd (Unigol, pâr, grŵp).
3 Arholiad Wedi'i Asesu yn Allanol - UN ar ddiwedd blwyddyn 10, DAU ar ddiwedd Blwyddyn 11
Dyfarniad Sengl: Cwblhau Unedau,1,2,3 a 4a.
4 NEA dros 2 flynedd, 2 ysgrifenedig, 2 Llefaredd
2 Arholiad - UN ar ddiwedd blwyddyn 10, UN ar ddiwedd blwyddyn 11

**GYRFAOEDD:**
Y Gyfraith, Hysbysebu, Newyddiaduraeth, Marchnata, Swyddi Gwasanaeth Cwsmer, Addysg, Addysgu, Cysylltiadau Cyhoeddus, Cyfathrebu, Sgriptio i'r Sgrin, Y Cyfryngau a'r Celfyddydau, Theatr, Ysgrifennu copi, Golygu, Recriwtio, Ysgrifennu Technegol, Gweinyddwr y Celfyddydau, Dylunio Meddalwedd- mewnbwn Creadigol, Cyhoeddi, Dylunio Gemau

Sgiliau Saesneg da yw'r sylfaen ar gyfer bron pob swydd dan haul!

## Trosolwg o'r cwrs Dyfarniad Dwbl

| Year 10 | Year 11 |
|---|---|
| Unit 2: Belonging<br>Text:<br>Novel • Understanding narrative prose<br>• Essay writing skills / developing extended responses<br>• Drafting / re-drafting / planning Unit 2 NEA Task A (Essay) | Unit 4: Writing Creatively<br>• Descriptive techniques<br>• Creating characters<br>• Organising writing |
| Unit 2: Belonging<br>Research texts (for IRP)<br>• Research and planning for presentation • Oracy skills<br>Unit 2 NEA Task B (IRP) | Unit 5: Continuity and Change<br>Text: Poetry anthology<br>• Oracy skills: paired discussion<br>• Engaging with attitudes<br>• Planning for an effective discussion Unit 4b exam Sit NEA Task B (Paired Discussion) |
| Unit 1: Context and Meaning<br>Text: Poetry anthology & supplementary poems<br>• Understand and respond critically to a range of poetry<br>• Supplementary poetry as unseen • Comparison skills | Unit 5: Continuity and Change<br>Text: Shakespeare play<br>• Understanding Shakespeare<br>• Essay writing skills / developing extended responses<br>• Drafting / re-drafting / planning Unit 5 NEA Task A (Essay) |
| Unit 3: Influence and Power<br>Text: Non-fiction anthology<br>• Understanding non-fiction texts • Oracy skills<br>• Planning and organising work Sit NEA Task B (Group discussion) Revise for Unit 1 | Unit 6: Connections<br>Text: Non-fiction anthology<br>• Engaging with unseen texts<br>• Making comparisons<br>• Essays for exams |
| Unit 3/ Unit 1: Non-Fiction Writing<br>Texts: Transcripts from Non-fiction anthology & additional texts<br>• Writing skills<br>• Planning / organisation skills Sit Unit 3 NEA Task b (Writing Task) | Revise exam texts and practise exam style questions. |
| Unit 4b: Motivations<br>Text: Prose / play<br>• Understanding written texts<br>• Consider the representation of characters, relationships and communities<br>Engaging with 'motivations' | Revise exam texts and practise exam style questions. |
| EXAMS: Unit 1 Summer | EXAMS: Unit 4b (Autumn), Unit 6 (Summer) |

# Safle Glynllifon

# Astudiaethau Tir (Tystysgrif BTEC Lefel 1)

**Beth fydda' i'n ei ddysgu?**

Bydd y cwrs hwn yn eich helpu i ddatblygu sgiliau mewn:-

- Trin Anifeiliaid
- Sgiliau ystâd, er enghraifft ffensio, plygu gwrychoedd a waliau cerrig sych.
- Cynnal a chadw peiriannau ac offer
- Cydymffurfio ag iechyd a diogelwch a rheoliadau amgylcheddol yn y gweithle.

**Sut fydda' i'n dysgu?**

Mae'r cwrs yn bartneriaeth rhwng ysgolion uwchradd Arfon a Dwyfor a Choleg Meirion-Dwyfor.

Byddwch yn treulio bore neu brynhawn llawn yn safle Glynllifon.

Bydd eich ysgol yn trefnu cludiant am ddim yno ac yn ôl o Glynllifon

Mae'r cwrs yn seiliedig ar weithgareddau ymarferol o dan oruchwyliaeth hyfforddwyr profiadol.

**Beth fydda' i ei angen?**

Ymroddiad a disgyblaeth i weithio'n gydwybodol ac yn ddiogel mewn amgylchedd gwaith.

Cyfarpar Diogelu Personol (esgidiau diogelwch ac oferôls)

**Sut fydda' i'n cael fy asesu?**

- Trwy gwblhau gweithgareddau ymarferol
- Trwy ddisgrifio ac esbonio gweithgareddau ymarferol

**Beth sy'n digwydd ar ôl y cwrs yma?**

- Ar ddiwedd y cwrs yma, dyma rai o'r llwybrau posibl:-
- Dilyn cwrs llawn amser Lefel 1 ar sail y tir yn safle Glynllifon.
- Dilyn cwrs llawn amser Lefel 2 Amaethyddiaeth, Rheoli Cefn Gwlad, Peirianneg, Astudiaethau Anifeiliaid neu Gwrs Astudiaethau Ceffylau yn safle Glynllifon.
- Cyflogaeth mewn diwydiant yn seiliedig ar y tir.

**Syniadau Gyrfa**

- **Contractwr Amaethyddol**
- **Peiriannydd**
- **Gweithiwr Fferm**
- **Contractwr Sgiliau Ystâd**

**Ydych chi eisiau gwybod mwy?**

- I ddarganfod mwy am y cwrs hwn, ewch i'r dudalen we ganlynol:

https://qualifications.pearson.com/content/dam/pdf/btec-entry-level-and-level-1-introductory/land-based/2016/specification/9781446932278_BTEC_%20L1_Intro_CD_LBS_Spec_230616.pdf

- Neu cysylltwch â: www.careerswales.com

Coleg Meirion Dwyfor

# Safle Glynllifon

14|19 GWYNEDD MÔN RHWYDWAITH

# Cefn Gwlad a'r Amgylchedd (Tystysgrif BTEC Lefel 1/2)

**Beth fydda' i'n ei ddysgu?**

- Bydd y cwrs hwn yn eich helpu i ddysgu am:-
- Yr ystod o gyfleoedd swyddi a mathau o gwmnïau y gallech weithio iddynt yn y diwydiant yma.
- Sut beth fyddai gweithio mewn diwydiannau cefn gwlad.
- Sgiliau ystâd, er enghraifft, ffensio, plygu gwrychoedd a waliau cherrig sych.
- Sgiliau coedwigaeth e.e. cynnal a chadw llif gadwyn, plannu coed a chynnal a chadw coetir
- Sgiliau melin lifio e.e. prosesu, hollti a thrin pren.
- Sgiliau amgylcheddol e.e. cynnal a chadw a diogelu cynefinoedd a bywyd gwyllt.
- Materion iechyd a diogelwch yn y yn y gweithle.

**Sut fydda' i'n dysgu?**

- Mae'r cwrs yn bartneriaeth rhwng ysgolion uwchradd Arfon a Choleg Meirion Dwyfor, Glynllifon a gyfystyr â 2 TGAU ac yn cael ei gefnogi gan ddiwydiannau lleol. Byddwch yn treulio bore llawn neu brynhawn yn safle Glynllifon.
- Bydd eich ysgol yn trefnu cludiant am ddim i Goleg Glynllifon ac oddi yno.
- Mae'r cwrs hwn yn gymysgedd o dasgau ymarferol a rhai yn yr ystafell ddosbarth a byddwch yn cael cyfle i baratoi a ymarfer eich sgiliau cyn i chi gael eich asesu. Bydd gofyniad i wneud peth gwaith cwrs i ffwrdd o'r coleg.

**Beth fydda' i ei angen?**

- Bydd gofyn i fyfyrwyr wisgo Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) addas, er enghraifft, esgidiau diogelwch ac oferôls.

**Sut fydda' i'n cael fy Asesu?**

- Byddwch yn cynhyrchu gwaith sy'n cael ei asesu gan eich tiwtor cwrs a'r bwrdd arholi.

**Beth sy'n digwydd ar ôl y cwrs yma?**

- Ar ddiwedd y cwrs hwn dyma rai o'r llwybrau sydd ar gael:-
- Cwrs llawn amser Lefel 2 neu Lefel 3 mewn Rheoli Cefn Gwlad yng Nglynllifon.
- Dilynwch un o amrywiaeth o gyrsiau academaidd neu alwedigaethol ar un o safleoedd Grŵp Llandrillo Menai neu yn yr ysgol.
- Gwaith yn y diwydiant cefn gwlad a'r amgylchedd

**Syniadau Gyrfa**

- **Cyfoeth Naturiol Cymru,**
- **Rheolwr Stad**
- **Triniwr Coed**

**Ydych chi eisiau gwybod mwy?**

- I ddarganfod mwy am y cwrs hwn, ewch i'r dudalen we ganlynol:

https://qualifications.pearson.com/en/qualifications/btec-firsts/countryside-and-environment-2010-qcf.html

- Neu cysylltwch â: www.careerswales.com

Coleg Menai

## Safle Bangor

# Trin Gwallt a Harddwch (VTCT Lefel 1 Dyfarniad Estynedig)

**Beth fydda' i'n ei ddysgu?**

**Bydd y cwrs hwn yn eich helpu i ddysgu:**

- Am y mathau o swyddi a salonau y gallech weithio ynddynt a sut fyddai hi i weithio yn y diwydiant trin gwallt a harddwch.
- Sgiliau techneg trin gwallt ymarferol sylfaenol
- Sgiliau harddwch ymarferol sylfaenol
- Byddwch yn gallu cynhyrchu edrychiad Gwallt a Harddwch cyfan gan ddefnyddio'r sgiliau rydych chi wedi eu datblygu.
- Byddwch yn dewis o blith amrywiaeth o ddewisiadau ymarferol
- Anatomeg sylfaenol a ffisioleg y gwallt a'r croen

### Sut fydda' i'n dysgu?

Mae'r cwrs wedi'i leoli ar safle Coleg Menai Bangor am 3 awr yr wythnos ym Mlynyddoedd 10 ac 11 a darperir cludiant o'ch ysgol ac yn ôl. Mae'r cwrs hwn yn gymysgedd o dasgau dosbarth a thasgau ymarferol a byddwch yn cael cyfle i baratoi ac ymarfer eich sgiliau cyn i chi gael eich asesu fel eich bod yn gwybod ac yn deall beth fydd gennych i'w wneud.

### Beth fydda' i ei angen ?

Bydd dysgwyr yn cael tabard i'w wisgo mewn sesiynau ymarferol. Byddwch angen ffeil, rhanwyr ffeil a waledi plastig.

Ar gyfer yr agweddau ymarferol, bydd yn dderbyniol i chi ddod â'ch colur neu gynnyrch celf ewinedd eich hun

### Sut fydda' i'n cael fy asesu?

Byddwch yn cynhyrchu gwaith cwrs sy'n cael ei asesu'n bennaf gan eich tiwtor cwrs. Ar ddiwedd y cwrs, byddwch yn ymgymryd ag asesiadau ymarferol i benderfynu ar eich gradd terfynol- Pasio, Teilyngdod neu Ragoriaeth.

### Beth sy'n digwydd ar ôl y cwrs yma?

Ar ôl Blwyddyn 11, gallech fynd ymlaen i'r Diploma NVQ Lefel 1 mewn Trin Gwallt neu Therapi Harddwch neu Brentisiaeth Fodern Sylfaenol Lefel 2. Ar ôl hyn i gyd, byddwch chi'n barod ar gyfer gwaith a/neu i ddechrau prentisiaeth yn y diwydiant gwallt a harddwch.
Ond, os nad ydych chi awydd cario ymlaen gyda gwallt a harddwch, gallech ddewis cymhwyster addas arall, yn dibynnu ar beth yr ydych eisiau edrych arno nesaf. Bydd eich cynghorydd gyrfaoedd yn gallu eich helpu gyda'ch dewisiadau pan fyddwch chi'n gadael yr ysgol.

### Syniadau Gyrfa

- **Trin Gwallt**
- **Therapydd Harddwch**
- **Therapydd Amgen**

### Eisiau gwybod mwy?

I ddarganfod mwy am y cwrs hwn, ewch i'r dudalen we

ganlynol: https://www.vtct.org.uk/find-a-qualification/

Neu cysylltwch â: www.careerswales.com

Safle Llangefni

# Adeiladwaith (Tystysgrif Lefel 1 City & Guilds)

## Beth fydda' i'n ei ddysgu?

Bydd y cwrs hwn yn eich helpu i ddysgu:

- Am y mathau o swyddi a safleoedd adeiladu y gallech weithio ynddynt a sut beth fyddai gweithio yn y diwydiant adeiladu;
- Sut i wneud Gwaith Brics Sylfaenol, Plastro, Gwaith Saer, sut i gadw ardal waith yn lân a thaclus a sut i weithio'n ddiogel yn y diwydiant adeiladu;
- Ynglŷn â materion amgylcheddol iechyd a diogelwch a'r gyfraith yn y gweithle.

## Sut fydda' i'n dysgu?

Lleolir y cwrs ar safle Coleg Menai Llangefni am 3 awr yr wythnos i Flwyddyn 10 ac 11 a darperir cludiant o'ch ysgol ac yn ôl. Mae'r cwrs hwn yn gymysgedd o dasgau dosbarth a thasgau ymarferol a byddwch yn cael cyfle i baratoi ac ymarfer eich sgiliau cyn i chi gael eich asesu fel eich bod yn gwybod ac yn deall beth fydd gennych i'w wneud.

### Beth fydda' i ei angen ?

Bydd gofyn i fyfyrwyr wisgo dillad diogelu personol addas (esgidiau diogelwch a oferôls) a fydd ar gael o'r Coleg.

### Sut fydda' i'n cael fy asesu?

Byddwch yn cynhyrchu gwaith cwrs sy'n cael ei asesu'n bennaf gan eich tiwtor cwrs. Ar ddiwedd pob uned o'r cwrs, byddwch yn ymgymryd ag asesiad tasg ymarferol fydd yn profi eich gwybodaeth.

### Beth sy'n digwydd ar ôl y cwrs yma?

Ar ôl Blwyddyn 11, gallech fynd ymlaen i Ddiploma City and Guilds lefel 1 / 2 yn llawn amser neu fel prentis mewn Gwaith Brics, Plastro a Gwaith Coed ar sail rhyddhau am ddiwrnod sy'n arwain at Ddiploma / NVQ lefel 2 neu gwrs adeiladu ICA/NVQ lefel 2 ar sail rhyddhau am ddiwrnod. Ar ôl hyn i gyd, byddwch yn barod ar gyfer gwaith a/neu i ddechrau hyfforddiant pellach yn y diwydiant adeiladu.

Ond, os nad ydych chi'n awyddus i barhau ag adeiladwaith, gallech ddewis cymwysterau eraill addas yn dibynnu ar yr hyn rydych chi am ei wneud nesaf. Bydd eich cynghorydd gyrfaoedd yn gallu eich helpu gyda'ch dewisiadau pan fyddwch chi'n gadael yr ysgol.

### Syniadau Gyrfa

- **Briciwr**
- **Peintiwr ac Addurnwr**
- **Plastrwr**
- **Gwaith Coed**

### Eisiau gwybod mwy?

I ddarganfod mwy am y cwrs hwn, ewch i'r dudalen we ganlynol:

- I ddarganfod mwy am y cwrs hwn, ewch i'r dudalen we ganlynol:

http://www.cityandguilds.com/qualifications-a-apprenticeships/construction/construction/6219-construction-skills#tab=information&acc=level1

Neu cysylltwch â: www.careerswales.com

- NID YW'R CWRS YN ADDAS I DDYSGWYR SYDD AG ECSEMA